Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr

Tudalen 4
PLANT MEWN ANGEN 2013

Tudalen 11
EISTEDDFOD LLANRUG

Tudalen 26
PENISARWAUN

ECO'r Wyddfa

Rhif: 417
Nadolig 2013
Ionawr 2014
Pris: 50c



Pwy roes y sêr ar frigau'r coed yn addurn Nadolig harddaf 'rioed?

Llun gan Paul Sivyer.

Gwobrau lu i ddyn camera o'r Fachwen.

Nid yw Alun Hughes yn enw anghyfarwydd ym myd ffilmiau antur a dringo. Mae'n cael ei gydnabod fel un o'r arbenigwyr yn y maes, ac mae eisoes wedi ennill gwobrau rhyngwladol am ei ffilm "Birdman/Ar Adain y Gwynt" yng Ngŵyl Ffilmiau Trento yn 2010. Yn ystod y mis diwethaf enillodd wobrau led-led Ewrop gyda'r rhaglen ddogfen "Defaid a Dringo" a ddangoswyd ar S4C yn ystod mis Tachwedd. Mae'r rhaglen yn ddilyniant i'r ffilm "Dringo i'r Eitha" a enillodd wobr yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Graz iddo yn 2008.

Mae "Defaid a Dringo" gan Cwmni Da o Gaernarfon yn dilyn hynt a helynt Ioan Doyle o Fethesda yn ystod un flwyddyn o'i fywyd. Yn ystod y flwyddyn mae'n ceisio sefydlu ei fusnes ei hun tra'n parhau efo'i ddiddordeb ysol mewn dringo. Meddai Llion Iwan, Comisiynydd Rhaglenni Ffeithiol S4C, "Stori sydd yma am y tensiwn sy'n bodoli rhwng dilyn y freuddwyd a gorfod ennill bywoliaeth."

Oherwydd natur y ffilm, sy'n cofnodi bywyd ar fynyddoedd Eryri a'r antur wrth i Ioan ddilyn y dynfa tuag at ddringo, enillodd y rhaglen wobrau mewn gwahanol gategoriau. Yng Ngŵyl Ffilmiau Kendal yng ngogledd Lloegr, enillodd y brif wobr yn y categori amgylchedd mynyddig. Yn Graz, Awstria, enillodd y brif wobr

yng nghategori dringo, ac yn Torello, Barcelona enillodd y brif wobr yng nghategori diwylliant y mynydd.

Mae ennill y brif wobr mewn tri categori gwahanol gyda'r un ffilm yn brawf digamsyniol o ddawn Alun gyda'i gamera, ac yn ei osod ymhlith goreuon y byd am greu y math hwn o ffilm.

Eco Nadolig 2013.indd 1 17/12/2013 11:22

ECO'r Wyddfa

RHIF 417
Nadolig 2013
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
PENISARWAUN: ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Chwefror	Ionawr 19	Ionawr 30	Waunfawr
Mawrth	Chwefror 16	Chwefror 27	Llanrug

LLYTHYRAU

Cymdeithas Brodwaith Cymru
Craigytan, Llanuwchllyn
Y Bala. LL23 7TA
craigytan@btinternet,com

Annwyl Olygydd

Fe wyddoch mae'n siŵr fod y Gymdeithas hon yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstiliau mewn coleg bob blwyddyn. Eleni yw'r wythfed tro i'r Gymdeithas cynnig yr ysgoloriaeth hon. Enillwyd hi yn y saith mlynedd ddiwethaf gan fyfyrwyr dawnus a phleser oedd arddangos eu gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheri amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Rydym wedi canfod mai'r ffordd orau i'r Gymdeithas ddenu ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth o bob rhan o Gymru yw trwy gal cyhoeddusrwydd yn y papurau bro.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch ar y cyfeiriad uchod. Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr 2014.

Gyda diolch
Yn gywir
Nesta Jones

Gair gan y Golygydd.

Dyma rifyn olaf yr "Eco" am eleni, ac y mae newidiadau ar y gweill ar gyfer y flwyddyn newydd.

O fis Chwefror ymlaen, bydd pedair tudalen ychwanegol o liw yn cael eu cynnwys: mwy o reswm i chwi anfon mwy o luniau o wahanol ddigwyddiadau eich pentrefi.

O fis Ebrill, bydd pris yr "Eco" yn codi i 60c y rhifyn neu £6 am flwyddyn os telir ymlaen llaw. Mae'r pris hwn yn hynod o resymol o gofio y bydd wyth tudalen lliw ynddo a chyfanswm o 32 tudalen i gyd. Yn fuan yn y flwyddyn newydd bydd gan yr "Eco" wefan. Cawsoch 36 tudalen yn eich rhifynnau diwethaf, ond bydd yn rhaid cyfyngu maint y papur i 32 tudalen o fis Chwefror ymlaen. Bydd lluniau a manylion na ellir eu cynnwys yn y papur yn cael eu rhoi ar y wefan – a bydd mynediad i'r wefan, wrth gwrs, am ddim.

Mae'r holl ddatblygiadau hyn wedi golygu llawer o waith caled i bwyllgor bychan o selogion. Beth am i bob un ohonoch addunedu helpu'r "Eco" yn y flwyddyn sydd i ddod? Cynigiwch eich cymorth gyda dosbarthu. Anfonwch stori neu lun. Perswadiwch gymydog nad yw'n derbyn yr "Eco" i'w brynu. Dowch allan unwaith y flwyddyn i helpu gyda'r bwndelu. Cysylltwch ag unrhyw un o'r swyddogion i awgrymu gwelliannau. Hysbysebwch yn yr "Eco". Oes rhywun efo diddordeb mewn cynllunio croesair i'r "Eco"? Beth am dudalen i'r ifanc?

Rhifyn Chwefror.

Gan fod rhifyn Nadolig/Ionawr yn dod o'r wasg cyn y Nadolig, ni fydd yn bosibl cynnwys adroddiadau am rai digwyddiadau 'Nadoligaidd'. Ond pan ddaw rhifyn Chwefror o'r wasg, bydd y Nadolig wedi hen fynd heibio, a'r mwyafrif ohonom yn edrych ymlaen am ddyfodiad y gwanwyn. Felly, peidiwch ag anfon adroddiadau am wasanaethau Nadolig na lluniau Sion Corn os gwelwch yn dda – ni fyddant yn cael eu cynnwys.

Gan ddymuno Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd dda i bawb o'r darllenwyr.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£25 Rhiain Griffiths, Llundain, i gofio am ei mam, Dilys Fouracres o Benisarwaun.

£20: Sgotwr Prygen; Eira a'r plant, er cof am Geraint, Hafodty, Llanberis; Rhys a Heather, Chwiban y Gwynt, Caeathro.

£10: Mrs Jennie Williams, 20 Hafan Elan (gynt o 23 Eleanor Street, Caernarfon); Teulu Cae Cerrig; Teulu Pant y Buarth; Teulu Cefn Coch; Mr R. Iorwerth Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen; Miss Mair Foulkes, 3 Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Mrs A W Evans(Nan Nan), Llanberis; Goronwy Lewis, 60 Stryd Ceunant, Llanberis, Mrs Mary Catherine Jones, Tan-y-caerau, Clwt y Bont.

£5: Mrs Vera Price, Tan-y-Graig, Cwm y glo; Rhian, Dulas, 4 Stryd Fawr, Deiniolen

Diolch

Ar ran pwyllgor yr Eco, dymunwn ddiolch o galon i Mrs Eira Wyn Hughes, 12 Marian Terrace a Mrs Elan Williams, 15 Hafod Olau, Deiniolen, am y gwaith da a wnaeth y ddwy yn mynd â dros ugain copi o'r Eco o dŷ i dŷ am rai blynyddoedd. Yn awr y mae y ddwy wedi cael ymddeoliad ac yn barod i eistedd i lawr. Diolch i'r ddwy am eu siriol deb pan yn galw efo'r papur iddynt.

Tra yn diolch i'r ddwy, yr ydym yn dymuno yn dda i'r ddau sydd wedi cymryd drosodd, a gobeithio y cawn gydweithio â chwi am rai blynyddoedd a diolch i chwi am fod yn barod i wneud y gwaith.

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.
Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £15.00 - gwledydd Ewrop £33.50
- gwledydd eraill £42.50 Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

Eco Nadolig 2013.indd 2 17/12/2013 11:22

Dathlu hanner canmlwyddiant Hogia'r Wyddfa



Nhw yw 'boi band' enwoca' Cymru a nos Sadwrn, 28 Rhagfyr bydd cyfle i wylwyr S4C ymuno â Hogia'r Wyddfa i ddathlu hanner canmlwyddiant ers eu perfformiad cyntaf.

Yn Noson Lawen Hogia'r Wyddfa: Dathlu'r 50 bydd yr Hogia'n cael cwmni nifer o ffrindiau mewn cyngerdd mawreddog a gynhaliwyd ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol 2013 gyda Dilwyn Morgan yn llywio'r noson o gân, cerddoriaeth offerynnol a lot fawr o hiwmor.

Mae hi'n 50 mlynedd ers i'r tri droedio ar lwyfan gyda'i gilydd fel Hogia'r Wyddfa am y tro cyntaf ac mae'r tri – Arwel Jones, Myrddin Owen ac Elwyn Wilson Jones - yn cofio'r achlysur fel ddoe. Meddai Arwel, "Dan yr enw Triawd yr Wyddfa roedden ni'n perfformio ar y dechrau a'r cyngerdd cyntaf oedd i gynulleidfa o famau ifanc yn Llanberis.

"Cyn hynny roedd y tri ohonom - yn ffrindiau ac yn gymdogion yn Llanberis - yn aelodau o wythawd lleol. Roedd hi'n gyfnod pan oedd canu'n rhan bwysig o gymdeithas leol nid yn unig mewn capel a neuadd ond hefyd wrth i ffrindiau fynd am dro yn y wlad. Ymhlith chwarelwyr yr ardal mi oedd talentau cerddorol ac o'r cefndir hynny y datblygodd Hogia'r Wyddfa."

Mae Arwel yn pwysleisio mai cyngerdd dathlu oedd hwn nid cyngerdd ola' Hogia'r Wyddfa. "Mae'r tri ohonom yn gwybod yn iawn ble a phryd bydd y cyngerdd ola' ond mae hynny'n gyfrinachol. Fyddwn ni ddim yn ei gyhoeddi fel yr ola'. Mae'r tri ohonom yn ein saithdegau felly mae'r blynyddoedd yn dal i fynd â ni. Roedd hi'n braf cael dathlu ym mhafiliwn y 'steddfod a hwnnw'n orlawn."

Ers 25 mlynedd bellach mae Annette Bryn Parri wedi bod yn rhan o'u perfformiadau fel cyfeilydd. Mae Annette hefyd yn rhan o ddeuawd offerynnol Piantel gyda'r telynor, Dylan Cernyw, ac yn y cyngerdd dathlu mae Piantel yn chwarae nifer o alawon Hogia'r Wyddfa.

Yn ogystal â chanu rhai o'u caneuon mwyaf poblogaidd yn y cyngerdd mae'r hogia hefyd yn ymuno â'r corau meibion lleol maen nhw'n aelodau ohonynt. Mae Arwel ac Elwyn yn aelodau 0 Gôr Dyffryn Peris a Myrddin yn perthyn i Gôr Meibion Dwyfor. Fel côr lleol ardal Dinbych mae Côr Trelawnyd hefyd yn ymuno yn y cyngerdd. Yr artistiaid eraill yn y cyngerdd ydy John Ogwen, Trebor Edwards, Tara Bethan, Y Tri Digri, Wil Tân, Pedwarawd Hendre Cennin, Trio a'r wythawd ifanc Enfys.

I gloi'r cyngerdd mae'r holl artistiaid yn ymuno â'r triawd i ganu 'Safwn yn y Bwlch', y gân mae Hogia'r Wyddfa yn ei disgrifio fel eu 'hanthem'.

Eco Nadolig 2013.indd 3 17/12/2013 11:22

YSGOL GYNRADD

Plant Mewn Angen 2013 Daeth y plant i'r ysgol mewn pyjamas a "onesies" ar ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni a chael prynu sawl cacen flasus iawn yn y caffi. Diolch i Blwyddyn 6 am drefnu'r gemau ac am fod yn gyfrifol o'r caffi. Casglwyd £275.70 at yr achos.

Cystadleuaeth Gymnasteg Cafwyd diwrnod difyr yn y gystadleuaeth gymnasteg yng Nghaernarfon. Cafwyd diwrnod prysur a ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr.

Diwrnod Meddiannu'r Amgueddfa ym Mangor Cafodd Bl 6 gyfle gwych i dreulio'r diwrnod yn gweithio yn yr amgueddfa ym Mangor. Roedd hyn yn ran o gynllun trwy Gymru a oedd yn rhoi'r cyfle i blant ysgol gael profiad o fywyd pob dydd mewn amgueddfa. Cafodd y plant weithio yn y siop, paratoi arddangosfeydd a rhoi cyflwyniadau ar arteffactau hanesyddol i'r cyhoedd. Roedd pawb wedi cael diwrnod gwych.

Llysgenhadon Addysg Gorfforol Cafodd Llysgenhadon yr ysgol ddiwrnod llawn hwyl yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon efo llysgenhadon ysgolion eraill. Cafodd y plant wybodaeth am beth fydd eu rol yn ystod y flwyddyn.

Sul y Cofio Cafwyd gwasanaeth Sul y Cofio ar Dachwedd 10. Diolch i blwyddyn 6 am wneud eu rhan mor dda. Roedd canmoliaeth mawr iddynt.

Ymweliad y Cyfnod Sylfaen a Glyn Llifon Cafodd yr adran ddiwrnod addysgol bendigedig yng nghoedwig Glyn Llifon yn ddiweddar. Bu'r plant wrthi'n brysur yn gwneud gwaith Celf, Iaith a Mathemateg tra ar yr ymweliad.

Cymdeithas Lenyddol Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan Lywydd y noson, Geraint Elis, a phleser oedd ganddo gyflwyno y siaradwr, sef Alun Pritchard. Gyda chymorth toreth o luniau Powerpoint cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar ei brofiadau yn ymweld â gwlad Kenya. Ers ei ymddeoliad mae wedi bod allan i'r wlad nifer o weithiau ac wedi cefnogi sawl prosiect, fel gwneud yn siŵr fod y plant amddifad yno â tho uwch eu pennau; yn derbyn addysg a chael bwyd maethlon, a digon o ddŵr glân. Y nod oedd eu cynorthwyo i ddod yn hunan gynhaliol. Yn ogystal â hyn rhaid oedd gwneud yn siŵr fod adnoddau meddygol a deunyddiau hylendid personol ar gael hefyd i'r plant. Ddechrau'r flwyddyn eleni cynorthwyodd 12 o deuluoedd gan wella eu safon byw. Bwriada fynd allan eto Ionawr nesaf.

Roedd pawb wedi mwynhau'r noson gan ryfeddu at pa mor hapus roedd y plant yn edrych yn y lluniau, o feddwl am eu hamgylchiadau. Diolchwyd iddo gan y Ieuan Williams a braf oedd cael cymdeithasu dros banad. Dathlu'r Nadolig fydd yr aelodau y tro nesaf a hynny ar Rhagfyr 10fed yn Festri Cysegr a bydd y noson dan ofal Robin Jones.

Clwb Bro Bethel Braf oedd cael gwledda yn y Clwb Golff y mis yma i ddathlu'r Nadolig dros ginio. Cafwyd gair o groeso gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, a diolchodd i Ivy Wright ac Ann Ellis Williams am yr holl drefniadau ac i Staff y Clwb Golff am weini cinio mor flasus. Yn dilyn i'r Ysgrifennydd wneud cais i Age Cymru am grant drwy'r cynllun 'Winter Celebration Programme', roedd y Clwb wedi derbyn siec am £150 a gwariwyd yr arian i logi bws i'r Clwb Golff a phawb gael tocyn raffl am ddim. Mae Clwb Bro Bethel yn ddiolchgar iawn i Age Cymru am y grant, ac mae'r Ysgrifennydd wedi anfon llythyr i Gaerdydd i gydnabod hyn.

Cyfarchion Nadolig.
Dymuna John a Lis, Pen Parc, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i ffrindiau a theulu gan na fyddant yn anfon cardiau eleni.

CEIR CYMRU
Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros 25 Mlynedd
gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Cofiwch Ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
ORIAU AGOR
5.30am-7.30pm (Llun-Sadwrn)
5.30am-3pm (Sul)
10am-12pm (Diwrnod Nadolig)
(012480) 670261
CEWCH CROESO CYNNES GAN
CLED A SUSAN A'R TEULU
COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.
Yn Ogystal a
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI,
A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH DRWY'R FLWYDDYN
a Nadolig Llawen A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Eco Nadolig 2013.indd 4 17/12/2013 11:22

Ysgol Bethel Plant Mewn Angen 2013

Ysgol Bethel yn mwynhau y daith i Glyn Llifon

Eco Nadolig 2013.indd 5 17/12/2013 11:22

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Diolch Dymuna Rhys, Heather a'r teulu, Glanrafon Bach, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli mam, nain a hen nain annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Waunfawr.

Parti Nadolig y Plant Trwy nawdd cronfa Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro bydd Parti Nadolig ar gyfer plant y fro (oed ysgol gynradd neu'n iau) ar nos Lun, 16 Rhagfyr. Cynhelir y parti - gyda lluniaeth, adloniant ac ymweliad pwysig, am 5:30 yh yng Nghanolfan y Capel.

Carolau Ar nos Iau, 19 Rhagfyr, am 7:00 yh byddwn yn canu carolau o gylch y goeden Nadolig gyda Seindorf Iau Llanrug. Bydd casgliad tuag at achos da. Wedyn bydd cyfle i gymdeithasu a mwynhau mwg o gawl gartref. Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro fydd yn cyllido'r noson.

Bydd Oedfa Nadolig Capel Caeathro am 5:30 yh nos Sul, 22 Rhagfyr, yn dathlu Gŵyl y Geni. Yn ogystal â phresenoldeb Gweinidog y pentref, Y Parch Marcus Wyh Robinson, bydd cyfraniadau gan aelodau, plant, pobl ifanc a gwrandawyr yr Eglwys. Bydd yr oedfa ar gyfer y teulu i gyd a chroesawir bawb o bob oed, yn gyd-enwadol,i'r gwasanaeth.

Y Goeden Nadolig Newydd Gwledd i'r llygaid bob Nadolig yw y goeden sydd yn addurno y llecyn gwyrdd ynghanol y pentref. Mae tîm o wŷr heini wedi bod yn eu casglu, eu cario, eu rhoi yn eu lle a'u haddurno bob Nadolig a mawr ein diolch iddynt am gario y baich dros y blynyddoedd. Eleni, am y tro cyntaf, mae coeden newydd yn ei lle ar bost pwrpasol i'w chynnal yn ddiogel i wrthsefyll unrhyw storm. Mae'n hynod o hardd. Dewch am dro i Gaeathro gyda'r nos i'w gweld, a chroeso arbennig ar Ragfyr 19 pan fydd canu carolau o'i chylch.

Gwasanaethau y Capel am fis Ionawr Bydd y gwasanaeth ar ddydd Sul, Ionawr 5. am 2o'r gloch o dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson ac ar ddydd Sul, Ionawr19eg am 2 o'r gloch dan ofal Y Parch Iorwerth Jones Owen.

70 o flynyddoedd – Llongyfarchiadau Mae newyddion wedi cyrraedd y pentref fod Mr a Mrs Albert Jones, fu'n byw yn 5 Erw Wen am flynyddoedd lawer cyn symud yn nes at y teulu i Lanrwst, wedi dathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau calonnog iddynt.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

Dymuna y Cynghorydd Elfed Wyn Williams hysbysu yr ardal na fydd yn gallu cynnal Syrjeri yma yn Ninorwig eto gan nad oes lle cyfleus i'w chynnal oherwydd fod y Ganolfan ar werth ac wedi ei chau. Ond, bydd croeso i bwy bynnag sydd angen gair efo fo, un ai ei ffonio neu alw yn Tŷ Elidir, gan y bydd yn dal i gael Syrjeri yno unwaith y mis. Ymddiheura am y broblem.

Pen-blwydd Llongyfarchiadau i Myfi Peris Evans, Swn yr Awel, Gallt y Foel, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn ym mis Tachwedd, a gobeithio iddi gael diwrnod wrth ei bodd.

Hefyd Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, hithau wedi dathlu ei phen-blwydd yn ystod y mis. Llongyfarchiadau mawr iddi hithau a gobeithio cael iechyd am lawer blwyddyn arall i'r ddwy.

Gadael Cartref Trist iawn oedd clywed y newydd drwg fod Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, wedi gorfod gadael ei chartref oherwydd ei hiechyd ac wedi symud i Gartref Nyrsio Bryn Llifon, Bangor. Hyderwn fel ardal y bydd yn cael y gofal gorau ac y bydd yn cryfhau unwaith eto. Brysiwch wella a chadwch eich ffydd.

Diolch Mae Myfi Evans, Swn yr Awel, Gallt y Foel, yn dymuno diolch am bob cerdyn, galwad ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Tymor yr Hydref Y gaeaf ar ein gwarthaf erbyn hyn a'r dail wedi disgyn oddi ar y coed ac mae wedi oeri yn arw. Gweithgareddau y gaeaf i gyd wedi cychwyn a llawer un dan anwyd trwm. Cyfarfodydd Diolchgarwch wedi bod a llawer o'r ifanc wedi troi i'r oedfa a phawb yn falch iawn o'u gweld.

Ni chafwyd eira eleni ar gyfer copa'r Wyddfa yn mis Hydref ond daeth yn fuan iawn ym mis Tachwedd. Hyderwn na fydd y gaeaf yn rhy galed ac y cawn i gyd nerth ac iechyd i'w wrthsefyll. Pawb i gadw yn gynnes oherwydd yn fuan iawn ar ôl y Nadolig bydd y dydd yn ymestyn unwaith eto a daw tymor y Gwanwyn.

Nadolig Dymunaf Nadolig Llawen iawn i ddarllenwyr yr Eco, ac ar yr un pryd i Mrs Alice Thomas ac i Mrs Alice Griffith. Hwyl yr Wyl a pheidiwch â bwyta gormod.

Peidiwch gori ar stori

Un funud fach ...

LLUNFI

Na, doedd o mo'r peth callaf i'w wneud mae'n debyg. Canmolwyd yr Arlywydd Barack Obama am ei araith rymus yng ngwasanaeth coffa Nelson Mandela yr wythnos ddiwethaf, ond mae'n beryg mai rhywbeth arall a wnaeth y diwrnod hwnnw a aeth â'r sylw.

Y mis diwethaf cawsom wybod mai selfie yw gair Saesneg y flwyddyn am eleni yn ôl yr Oxford English Dictionary. (Os nad oes gair Cymraeg wedi ei fathu amdano eto, gaf i awgrymu 'llunfi'?) A heb os, 'llunfi' neu selfie enwocaf 2013 fydd yr un o Barack Obama a David Cameron gyda Phrif Weinidog Denmarc, Helle Thorning-Schmidt. I rai, doedd gweld y tri'n closio at ei gilydd yn wên o glust i glust er mwyn i Mrs Thorning-Schmidt dynnu llun ohonynt ar ei ffôn symudol ddim yn gweddu i'r achlysur. I eraill, roedd y digwyddiad yn chwa o awel iach gan ei fod yn dangos bod gwleidyddion blaenllaw yn ddynol ac yn gallu ymddwyn yn yr un ffordd â phawb arall.

Mae'n amlwg bod pobl yn cael hwyl fawr efo selfies ac yn mwynhau tynnu llun ohonyn nhw eu hunain efo camera neu ffôn symudol, a'u dangos wedyn i'w ffrindiau. Ac nid plant a phobl ifanc yn unig sydd wrthi, fel y profwyd gan y tri gwladweinydd yn y stadiwm yn Soweto y dydd o'r blaen. Yr embaras iddyn nhw oedd bod camera arall wedi eu dal yn tynnu'r 'llunfi'. Ac wrth gwrs, doedd a wnelo'r ffaith bod Prif Weinidog Denmarc (sydd, gyda llaw, yn ferch yng nghyfraith i Neil a Glenys Kinock) yn wraig ifanc ddeniadol ddim â'r ffaith bod y ddau ddyn yn amlwg wrth eu bodd cael bod yn yr un llun â hi! Peryg' mwyaf selfies (os oes peryg' ynddynt o gwbl) yw eu bod yn gwneud i ni ein gosod ein hunain yn y canol o hyd: 'Llunfi ar ben Wyddfa', 'llunfi'n bwyta cinio', 'llunfi'n mynd am dro', neu 'llunfi efo Dave a Barack!'

Pan ddaw'r Nadolig, fe ddathlwn eni'r Un a fyddai yn ystod ei oes yn dweud llawer iawn amdano'i hun. Ar un ystyr, fe osododd Iesu ei hunan yn y canol, gan honni er enghraifft mai ef oedd 'goleuni'r byd' a'r 'bugail da' a'r 'ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'. Mynnai hyd yn oed nad 'oes neb yn dod at y Tad ond trwof fi'. Ond dywedai'r pethau hyn nid er mwyn gwneud selfie a thynnu sylw ato'i hun, ond er mwyn i bobl wybod y gwir amdano. Oherwydd trwy i bobl wybod y gwir am Iesu Grist, Fab Duw, ac ymateb iddo mewn ffydd a chariad ac ufudd-dod y daw pobl i brofi'r bywyd newydd y daeth baban Bethlehem i'r byd i'w gynnig iddynt.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD

Eco Nadolig 2013.indd 6 17/12/2013 11:22

DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist Llandinorwig
Ar brynhawn Llun, Tachwedd 4ydd, trwy garedigrwydd y Parchedig Ddr Carol Roberts a Mr Dafydd Roberts, y Rheithordy oedd man cyfarfod y Gymdeithas.
Treuliwyd pnawn difyr iawn, trwy rannu gyda Mr Roberts, ei ddiddordeb a'i brofiadau yn ymweld â Chwarel Dinorwig. Cafwyd arddangosfa o luniau ganddo, oedd wedi eu tynnu ei hun, ac wedi eu rhoi ar ddisg.
Lluniau o olygfeydd oedd o ddiddordeb mawr i'r aelodau a chafwyd trafod, sgwrsio brwd a phawb yn rhoi ei bwt i mewn. Diddorol dros ben. I goroni'r cyfan mwynhaodd pawb luniaeth ysgafn oedd wedi ei baratoi ar eu cyfer a diolchwyd am y cyfan ar ran yr aelodau gan Mrs Rosina Worth.

P E N - B L W Y D D ARBENNIG YN 100 OED
Pleser yw cael llongyfarch Mr John Morris, Rhiwen, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd arbennig, yn 100 oed.
Ganwyd ef yn Cynfi, lle roedd ei rieni'n byw ar y pryd, a bu wedyn yn byw yn 1 Tan y Foel ac yna yn Bwlch Uchaf, cyn dod i fyw i Rhiwen.
Bu'n gweithio yn Chwarel Dinorwig nes iddi gau ac wedyn yn ffatri Hotpoint, ond mae'n siŵr mai'r atgof pennaf sydd gan blant y pentref amdano yw'r cyfnod pan fu'n ofalwr yn Ysgol Gwaun Gynfi, lle bu am nifer o flynyddoedd. Dymunwn iddo ben-blwydd hapus iawn yng nghwmni ei feibion, Haydn a Gwyn, a'i wyrion a'i wyresau.

Cyfarchion y Nadolig Dymuna Mr Iorwerth Evans, 5 Hafod Olau, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna y Cynghorydd Elfed Williams Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r ardal a diolch yn fawr am yr holl gefnogaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn.

Cyfarchion Dymunir gwellhad buan i rai sydd yn wael neu yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd, a dymuniadau'r Nadolig i holl drigolion yr ardal a darllenwyr yr Eco.

Diolch Dymuna Rhian, 'Dulas', 4 Stryd Fawr, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau ac anrhegion a gafodd gan ei theulu a ffrindiau ar achlysur ei phen-blwydd yn 65 oed yn ddiweddar.

Dathliadau'r Nadolig Mae nifer o weithgareddau wedi eu cynnal ar ddechrau'r mis i ddathlu'r Nadolig, gan gynnwys noson rhoi goleuadau'r pentref ymlaen a chyngerdd mawreddog yn yr eglwys. Diolch i bawb a gyfrannodd a chefnogi'r nosweithiau hynod lwyddiannus hyn. Casglwyd swm anrhydeddus iawn ar noson y goleuadau tuag at apêl ynysoedd y Phillipinau.

Dymuna Mrs Mary Catherine Jones, Tan y Caerau, Clwt y Bont, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'w chymdogion, ffrindiau a theulu gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Diolchiadau Wedi blynyddoedd o ddosbarthu'r Eco i drigolion y pentref, mae Mrs Eira Hughes, Rhes Marian, wedi penderfynu ymddeol o'r gwaith.
Mae Nikki Marzelos wedi gwirfoddoli i wneud y gwaith yn ei lle a dymunwn yn dda iddi wrth y gwaith a diolch yn fawr iddi am wirfoddoli i'w wneud ac hefyd i Mrs Eira Hughes am y blynyddoedd o wasanaeth. Diolch yn fawr i chi'ch dwy.

CWM Y GLO

Yn yr Ysbyty Dymunwn wellhad buan i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, sydd yn Ysbyty Gwynedd gan obeithio y bydd adref cyn y Nadolig.

Cyfarchion Nadolig Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd dda i bawb yn y pentref.

Diolch i bawb sydd wedi anfon newyddion i'r Eco yn ystod y flwyddyn.

Auto Express New Car Awards Winner 2012 Best Supermini

Dim ond ***£159**** *y mis*

Gyda **3**
Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!
- Rwan ar gael i ddreifwyr **dros 21 oed!**

Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT ***208*** NEWYDD
Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

PEUGEOT

MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT
Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,303.25, 35 taliad misol o £159.00, cost credit a ffioedd £1,250.17 **APR 6.4%.** Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £199.65. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol.
Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO2 87 - 135

Eco Nadolig 2013.indd 7 17/12/2013 11:22

Cinio Cawl Capel Ddydd Sul, Tachwedd 24, cafwyd cinio arbennig yn Capel Coch, Llanberis er mwyn codi arian at Apêl Haiti 2013-2014 Undeb yr Annibynwyr a Chymorth Cristnogol. Mae'r Undeb yn trefnu Apêl arbennig at waith Cymorth Cristnogol mewn gwlad wahanol bob pedair blynedd, a'r tro hwn Haiti, y wlad fechan yn y Caribî a ddioddefodd ddaeargryn enfawr ym mis Ionawr 2010 a fydd yn derbyn cymorth.

Cynhaliwyd Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog, y Parchg John Pritchard, ac yn amlwg rhoddwyd sylw i Haiti a'r angen mawr i barhau i helpu'r bobl sy'n dal i ddioddef yno oherwydd y difrod a achoswyd gan y ddaeargryn. Mae miloedd ar filoedd o bobl yno'n dal i fyw mewn pebyll bron i bedair blynedd wedi iddynt golli eu cartrefi. Ond ar wahân i'r ddaeargryn, mae yn Haiti dlodi mawr sy'n golygu bod pobl mewn gwir angen am help o'r tu allan i'r wlad.

Ar ôl yr oedfa, gwahoddwyd y gynulleidfa i aros am ginio. Ond cyn hynny roedd pobl ifanc dosbarth hynaf yr Ysgol Sul wedi trefnu Cwis ar gyfer pawb, o'r plentyn ieuengaf i'r hynaf yn y gynulleidfa. Cafwyd hwyl fawr yn ceisio ateb y cwestiynau, ac roedd y plant yn ateb llawn cystal os nad gwell na'r oedolion.

Yna aeth pawb at y byrddau i fwynhau'r cawl llysiau blasus a'r bara a'r cacennau a baratowyd ar ein cyfer. Roedd yn braf iawn cael sgwrs a chwmnïaeth dros ginio. Roedd cryn dasg bwydo deugain o bobl ond llwyddwyd i wneud hynny, ac roedd canmol mawr gan bawb.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd i baratoi'r bwyd ac i hwylio'r byrddau a gwneud y festri'n barod ar gyfer y cinio. Roedd yn gryn gamp cael popeth yn ei le o gofio y byddai gennym oedfa i'w chynnal yn y festri cyn cinio. Ond llwyddwyd i gael trefn ar y cyfan.

Ar ôl cinio cafwyd ail hanner y Cwis, a diolch yn fawr iawn i'r ieuenctid ac Andrew Settatree, Gweithiwr Ieuenctid Efe, am ei baratoi.

Gwahoddwyd pawb i gyfrannu at yr Apêl a chafwyd £273.75. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd yr ymdrech ac i bawb a gyfrannodd. Trefnwyd y cyfan yn enw Eglwys Annibynnol Nant Padarn sy'n cydaddoli ers blynyddoedd bellach gydag aelodau Capel Coch. Ac yn naturiol, gan fod holl weithgarwch y ddwy eglwys ar y cyd yn Capel Coch, cafwyd cefnogaeth gan aelodau'r ddwy eglwys a theuluoedd yr Ysgol Sul.

Dymuna Mrs A.W. Evans(Nan Nan) Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i chyfeillion, a dymuniadau gorau dros yr Ŵyl i holl staff Plas Pengwaith.

Dymuna Goronwy Lewis 13 Stryd Ceunant, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu a'i ffrindiau, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Capel Coch: Ysgol Sul: Cofiwch fod croeso cynnes i blant i'r Ysgol Sul a gynhelir yn Capel Coch am 11.15 o'r gloch bob bore Sul. Rydym bob amser yn falch o weld plant newydd yn dod atom. Ar y pedwerydd Sul o bob mis byddwn yn cynnal Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch yn lle'r Ysgol Sul. Ffoniwch 01286 872390 am fanylion pellach am yr Ysgol Sul.

CIC: Mae CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) yn cael ei gynnal bob pythefnos ar nos Wener, am 7.00 o'r gloch. Am fanylion pellach ffoniwch 872390 eto. Ceir manylion llawn am drefn yr oedfaon, yr Ysgol Sul a CICiau ar ein gwefan, gronyn.org unrhyw amser.

MOLI: Cynhelir oedfa MOLI (Mwy O Le i Iesu) yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch ar yr ail nos Sul o bob mis. Bydd y nesaf am 5.00 o'r gloch nos Sul, Rhagfyr 8.

Nadolig: Cynhelir Oedfa Nadolig y Plant am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 22. Byddwn yn cynnal parti Nadolig yr un noson â'r oedfa, ac felly edrychwn ymlaen at y gwasanaeth a'r parti i'w ddilyn. Bydd Oedfa Gymundeb yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch fore dydd Nadolig.

Cyfarchion Nadolig Ni fydd Mrs Phyllis Jones, 60 Dol Elidir yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion oll, gan ddiolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Felly…

Daeth y Mab i'r byd yn faban—Y Gair
i gôl Y Fam wiwlan,
hen atgo'r oesau'n datgan
Y Tad o'i fodd, rhodd i'n rhan.

Norman Closs

NADOLIG LLAWEN
I CHWI OLL!
BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Eco Nadolig 2013.indd 8 17/12/2013 11:23

Ymweliad â Phatagonia yn Ysbrydoli Antur Newydd i Alun yr Arth



Yr wythnos hon cyhoeddir antur ddiweddaraf Alun yr Arth. Patagonia yw lleoliad y stori y tro hwn, wrth i Alun yr Arth fynd ati i greu awyren i gario dŵr o Gymru i diroedd sych Patagonia. Mae'r gyfrol wedi ei chyflwyno i Mabon, Idris, Esyllt a Cristian - teulu o Batagonia, sy'n ddilynwyr mawr o'r gyfres. Ysbrydolwyd Morgan Tomos i ysgrifennu'r stori wedi i'w fam, Cadi Tomos, ymweld â'r Wladfa a chwrdd â'r teulu wrth gerdded ar y stryd nid nepell o'r Gaiman. Yn y llyfr Mabon ac Idris yw enwau'r ddau gwanco, ffrindiau Alun, a Cristian yw enw'r condor sy'n cario Alun am ran o'r daith i'r Wladfa, ac mae Esyllt yn ddeinasor blin.

Dywedodd Morgan Tomos

'Bydd Alun yr Arth yn wastad wrth ei fodd yn gwneud ffrindiau newydd. Ac er iddo hel syniadau eithaf twp, eisiau helpu mae o a dweud helo mawr. Mae Patagonia ben arall y byd ond mae Alun yr Arth yn gweld mai tebyg yw pawb ac eto'n ddiddorol o wahanol.'

Mae Cyfres Alun yr Arth wedi datblygu i fod yn un o hoff gyfresi plant Cymru. Erbyn hyn, o weld yr ymateb gwych a gafwyd i'r llyfr gan blant Ysgol Feithrin y Gaiman wedi i Esyllt Nest ddarllen y stori iddynt, mae'n ymddangos fod Alun yn dipyn o ffefryn ochr arall i'r byd hefyd.

Pris Alun yr Arth ym Mhatagonia yw £2.95

Mabon ac Idris o Batagonia gyda chopi o lyfr newydd Alun yr Arth.

Alun yr Arth yn cyflwyno copi o Alun yr Arth ym Mhatagonia i Esyllt Nest.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163 www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER

Menter Môn

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

ERDF

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Ewrop & Chymru Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

MERCHER 15.1.14 2yp
BANGOR - Y DDINAS CANOLOESOL COLL (1½ milltir)
CYCHWYN: Maes Parcio 'Beach Road', gyferbyn tafarn y 'Lord Nelson'.
HAWDD IAWN.

MERCHER 22.1.14 10yb
LLANRUG: HANESION TAN Y COED A CHASTELL BRYN BRAS (2 milltir)
CYCHWYN: Tu cefn i Ysgol Gynradd Llanrug CYMEDROL OND ANGEN SGIDIE CERDDED. YCHYDIG YN FWDLYD YMA AC ACW.

SADWRN 25.1.14 1.30yp
PENISARWAUN: CAER GLASGOED I DDINAS DINORWIG: Y TIRWEDD OES HAEARN (3 milltir)
CYCHWYN: EGLWYS PENISARWAUN
YCHYDIG YN ANODD. ANGEN SGIDIE CERDDED: TAITH AR HYD LWYBRAU CYHOEDDUS.

MERCHER 29.1.14 7yh / 7pm
NOSON GWYLIO'R SÊR: TAITH O AMGYLCH Y 'COSMOS' (¾ milltir/mile)
CYCHWYN: 'Allt Ddu', Dinorwig. HAWDD/EASY.
DIBYNNOL AR Y TYWYDD - FFONIWCH 07867 810576 CYN CYCHWYN.
GWISGWCH YN GYNNES A DEWCH A FFAGL GYDA CHI.

ECO'r Wyddfa
Nadolig Llawen i bawb

PROBLEM GYDA'CH CYFRIADUR?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
A GWELLA EICH CYFRIADUR
Cysylltwch a
GOMER ROBERTS
Cymorth a hyfforthiant amyneddgar I bob oedran er mwyn I chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfriadur
(01286) 870462 Symudol- 07962 712368

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR AR GAEL
AR GYFER POB MATH O LOGI PREIFAT
NOSWEITHIAU ALLAN, PARTION, TRIPIAU AC ATI
Gwasanaeth personol a thylerau rhesymol
D. P. OWENS RHIWLAS (01248) 361044

Eco Nadolig 2013.indd 9 17/12/2013 11:23

Ysgol Gyfun Llanrug yn gosod y goeden Nadolig ar y Sgwar

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb cant Mis Hydref: 1. Mrs G. Roberts, Hafle; 2. Mrs D. Jones, 12 Hafan Elan; 3. Mrs J. Jones, 4 Disgwylfa.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Tachwedd: 1. Falmai Williams, Aberdesach; 2. Paul Rawlinson, Bethesda.

Cyfarchion Nadolig Fe ddymuna Mrs Jennie Williams, 20 **Hafan Elan**, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Pen-blwydd Arbennig Ar Rhagfyr 19 bydd Mrs Joan Williams (Siop Trin Gwallt) yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Dymuna'r teulu a'i ffrindiau lu ddiwrnod hapus iawn iddi.

Os ydych eisiau gwybod cyfrinach Mrs Williams yn cyrraedd yr oed, gwnewch ddau ddwsin pwdin Nadolig, dwsinau o fins peis, sawl torth frith, jamiau, picyls a chymaint o bethau eraill ar hyd y flwyddyn!

Mae mor brysur a charedig efo pawb 'Happy Birthday, Mrs Wiliams'.

Hafan Elan Mae trigolion Hafan Elan a'u ffrindiau wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn eto eleni.

Cafwyd Bwffe Nadolig ar y 5ed o Ragfyr wedi ei drefnu gan Bessie Costello, y Warden, ynghyd â criw o wrifoddolwyr selog. Cafwyd hwyl wrth ganu gyda'r 'Soggy Bottom Boys', pawb am adref wedyn yn llawn o fwyd hynod o flasus.

Ar yr 17eg bydd y Cinio Nadolig yn cael ei drefnu fel arfer gan Staff Cegin Ysgol Brynrefail. Mawr yw eu diolch am y cinio hynod bob wythnos ar hyd y flwyddyn.

Ar 19fed o'r mis bydd trip i Galeri eto i gyngerdd Nadolig. Mae'r Clwb Cinio yn llwyddiant arbennig iawn, fel y bore coffi bob dydd Mercher, a gêm bach o Bingo run pryd.

Dymunir Nadolig Llawen Blwyddyn Newydd dda i bawb.

Marwolaeth Trist iawn oedd y newydd am farwolaeth sydyn Miss Rhiannon Ellis, Caernarfon (Greuor yn ifanc). Bu yn athrawes yn Ysgol Brynrefail am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn yn fawr â'i theulu a'i ffrindiau.

Penodiad Newydd Mae Meddygfa Waunfawr a Llanrug yn hynod falch o groesawu aelod newydd i'r tîm clinigol. Yn wreiddiol o'r Bontnewydd, bu Rhian Lewis ers blynyddoedd yn gweithio fel Nyrs Arbenigol i'r Gwasanaeth Meddygon Teulu Tu Allan i Oriau yn Ysbyty Gwynedd yn asesu a thrin cleifion oedd angen triniaeth ar y diwrnod.

Bydd cymhwyster a phrofiad Rhian yn y maes yn gaffaeliad sylweddol i'r Practis gan ehangu'r gwasanaeth a gynigir a mawr obeithir y bydd cleifion yn manteisio'n llawn ar ei harbenigedd.

Diolchiadau Ar ran y gymuned, hoffai Cyngor Cymuned Llanrug ddiolch yn fawr iawn i Gwyn Antur a Sion Jones am eu caredigrwydd a'u cydweithrediad yn rhoi cartref clyd i goeden Nadolig y pentref.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Llanrug a Chwm y glo.

Penblwydd Hapus i Dylan Owen, Hafan Elan gynt yn 70 oed

Iâr arbennig.

Ddeufis yn ôl roedd yr "Eco" yn darogan llwyddiant pellach i Ryan Robinson o Dan y Coed yn ei ymgais i ennill gwobr yn Stoneleigh gyda'i iâr Belgian. Dyma'r sioe ddofednod fwyaf yn Lloegr, gyda miloedd o adar yn cael eu harddangos yno yn ystod diwedd Tachwedd. A'r iâr hon o Dan y Coed a enillodd i Ryan y wobr am yr arddangoswr ifanc gorau yn y sioe. Ag yntau'n ddim ond pedair ar ddeg oed, daeth llwyddiant pellach iddo yn Stoneleigh pan fu'n llwyddiannus yn ei arholiad beirniadu. Mae ganddo bellach yr hawl i feirniadu ieir Belgian mewn sioeau dofednod.

Yn Sioe Ddofednod Gwynedd yn gynharach y mis hwn enillodd Ryan unwaith eto gyda'r iâr, a ddyfarnwyd yn Iâr Belgian orau'r sioe. Bu hefyd yn llwyddiannus gan ennill y brif wobr gyda'i iâr Pekin.

Am yr ychydig fisoedd nesaf bydd Ryan a'i ieir yn cael seibiant o'r cylch arddangos, ond mae'r gwaith paratoi yn parhau. Bydd Ryan yn brysur dros fisoedd y gaeaf yn magu cywion erbyn y gwanwyn – a'r rheini, gobeithio, fydd enillwyr y dyfodol iddo.

Dymuniadau Gorau am Nadolig Dedwydd a Hapus a Blwyddyn Newydd Dda.

Capel y Rhos – Oedfaon mis Ionawr

5 – Y Gweinidog – Y Parch Marcus Wyn Robinson
Gweinyddir y Cymun

12 – Dr. Geraint Tudur

19 – Y Gweinidog

26 – Y Parch. Ddr. Elwyn Richards

Diolch o galon i bawb ddaeth i Hafan, Ffordd Glanmoelyn, ddechrau'r mis i gefnogi'r Bore Coffi er bydd Cynllun EFE. Gwnaed elw o £130 tuag at waith Mr Andrew Settatree sy'n gwneud gwaith mor rhagorol gyda phobl ifanc y capeli lleol.



Eco Nadolig 2013.indd 10 17/12/2013 11:23

Canlyniadau Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwmyglo 2010

Canlyniadau Llwyfan:
Unawd Dosbarth Derbyn: 1af Angharad; 2il Sioned; 3ydd Lili;
Llefaru Unigol Dosbarth Derbyn: 1af Lili; 2il Sioned; Cyd 3ydd Angharad a Beca;
Unawd Blwyddyn 1 a 2: 1af Beca Mair; 2il Sara; 3ydd Alaw Angharad;
Llefaru Unigol Blwyddyn 1 a 2: 1af Twm; 2il Alaw Angharad; 3ydd Beca Mair;
Côr Dosbarth Meithrin: 1af Dosbarth Mrs Thomas;
Côr Babanod hyd at flwyddyn 2: 1af Côr Babanod Llanrug;
Unawd Blwyddyn 3 a 4: 1af Erin Gibbard; 2il Buddug; 3ydd Caio;
Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: 1af Erin Gibbard; 2il Mared; 3ydd Erin;
Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6: 1af Deian; 2il Gwernan;
Unawd Blwyddyn 5 a 6: Bechgyn 1af Tomi; 2il Osian;
Merched: 1af Nel; 2il Elliw; Cyd 3ydd Zoe, Lisa a Leah;
Unawd Offerynnol Cynradd: Pres: 1af Osian; 2il Ben;
Chwyth: 1af Nanw;
Piano: 1af Heledd; 2il Beca; Cyd 3ydd Buddug ac Enlli;
Telyn: 1af Erin Gibbard;
Parti Dawns Werin Cynradd: 1af Parti Tomi; 2il Parti Guto; 3ydd Parti Heledd;
Parti Llefaru Cynradd: 1af Parti'r Hogia; 2il Parti'r Genod Drwg; 3ydd Parti'r Genod Mawr;
Parti / Côr Unsain Cynradd Blynyddoedd 3 – 6: 1af Côr Plant Llanrug;
Sgets Cynradd: 1af Genod Drwg;
Llefaru Unigol Uwchradd: 1af Molly; Cyd 2il Beca a Miriam;
Unawd Uwchradd: 1af Leisa; 2il Anna; 3ydd Lleucu;

Unawd Offerynnol Uwchradd:
Piano: 1af Math;
Pres: 1af Gethin;
Deuawd Uwchradd: 1af Llinos a Lleucu;
Grŵp Dawnsio Disgo Uwchradd: 1af Dawnswyr Brynrefs;
Sgets Uwchradd: 1af Hashtag; 2il Y Caffi Rhochian; 3ydd Y Dêt Delfrydol;
Parti Llefaru Uwchradd: 1af Parti Miriam; 2il Parti Coginio;
Cân Ysgafn/Grŵp Pop Uwchradd: 1af Stressed Out; 2il Llanast;
Parti / Côr Uwchradd / Agored: 1af Côr Ieuenctid Llanrug.
Enillwyr y Tlysau Llwyfan:
Cadair Lowri i Enillydd yr Unawd ym Mlynyddoedd 1 a 2: Beca Mair;
Cwpan W. Park Jones a Rhodd o £10 am y Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Cynradd): Deian;
Tlws Bwlchgrwnog a Rhodd o £10 am y Perfformiad Cerddorol Cynradd Gorau: Heledd;
Tlws Er Cof am Eddie a Moreen Lennon a Rhodd o £10 am y Perfformiad Cerddorol Uwchradd Gorau: Math Roberts;
Rhodd o £10 gan Haf Roberts i'r Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Uwchradd): Molly;
Cwpan y Perfformiwr a Rhodd o £10: Rhun Williams.
Canlyniadau Llen:
Blwyddyn 3 a 4: 1af Mared Roberts; 2il Erin Jones; 3ydd Benjamin Elis Jones.
Blwyddyn 5 a 6: 1af Ffugenw Yn Unig; 2il Ffugenw Yn Unig; 3ydd Nanw Llwyd.
Tlws yr Ifanc (Blynyddoedd 3-9): 1af Ceri Fflur Griffith; 2il Iwan Griffith; 3ydd Owain Roberts.
Cystadleuaeth Y Gadair: 1af Chloe Roberts; 2il Anna Wyn Jones; 3ydd Nia Williams.

Eco Nadolig 2013.indd 11 17/12/2013 11:23

ARLUNIO

Pob oedran: Unrhyw waith yn seiliedig ar:
Rhyfeddodau - Enfys - Cartwn - Cerbyd

Arlunio Meithrin
1. Harriet Garth Jones-Ellis

Arlunio Derbyn
1. Sioned Gwenllian Hughes
2. Lleu Larsen & Siôn Owain Williams
3. Morgan Rowlands & Llio Jones

Arlunio - Blwyddyn 1
1. Betsan Haf
2. Guto Ewart Parry
3. Ifan Morris & Owain Llyfni

Arlunio – Blwyddyn 2
1. Sindarella – Cwm y Glo
2. Alaw Angharad & Jac y Jwc (Cwm y Glo)
3. Beca Mair & Luned Llwyd

Arlunio - Blwyddyn 3
1. Erin Gibbard
2. Osian Llyfni
3. Beth Whiteside Thomas & Beca Fôn Parry

Arlunio Blwyddyn 4
1. Mali Elin Brookes
2. Mared Llwyd & Aled Huw Jones
3. Siocled (Cwm y Glo) & Popet (Cwm y Glo)

Arlunio – Blwyddyn 5
1. Deian Llyfni
2. Elis Edwards & Minion (Cwm y Glo)
3. Blodyn (Cwm y Glo) & Cari Wyn Pritchard

Arlunio Blwyddyn 6
1. Guto Whiteside Thomas
2. Osian Land
3. Elliw Morris & Piws (Cwm y Glo)

Arlunio - Blwyddyn 7 ac 8
1. Anna Whiteside Thomas
2. Cari Elin Jones
3. Teleri Medi Jones

Arlunio - Blwyddyn 9 a 10
1. Llinos Roberts
2. Siôn Eifion Land
3. Osian Evans

Arlunio - Blwyddyn 11, 12 ac 13
1. Nia Hâf

Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau.
Guto Whiteside Thomas

DYLUNIAD CYFRIFIADUROL

Pob oedran: Unrhyw waith yn seiliedig ar:
Rhyfeddodau - Enfys - Cartwn - Cerbyd

Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Babanod
1. Morgan Rowlands
2. Emily Jones

Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Iau
1. Osian Eifion Land
2. Erin Gibbard
3. Deian Llyfni & Erin Gibbard

Dyluniad Cyfrifiadurol Oedran Uwchradd
1. Gwion Rhys Parry Evans
2. Gethin Wyn Jones

TRI DIMENSIWN

Tri Dimensiwn Meithrin / Derbyn (Addurno bin ar gyfer llofft)
1. Sioned Gwenllian Hughes
2. Anest Hickey

Tri Dimensiwn Blwyddyn 1 a 2 (Cerdyn Penblwydd (dim mwy na 6)
1. Alaw Angharad Hughes
2. Guto Ewart Parry
3. Ynyr Gwilym ?(Tom & Jerry) & Owain Llyfrni

Tri Dimensiwn Blwyddyn 3 a 4 (eitem yn defnyddio defnyddiau ail-gylchu)
1. Osian Llyfni
2. Catrin Beech & Buddug Pennant Jones
3. Erin Gwilym & Beca Fôn Parry

Tri Dimensiwn Blwyddyn 5 a 6 (Addurniadau Nadolig (hyd at 6)
1. Deian Llyfni
2. Guto Whiteside Thomas
3. Leia Nel

Tri Dimensiwn Oedran Uwchradd (Eitem ar thema chwaraeon)
1. Teleri Medi Jones
2. Gethin Wyn Jones
3. Cai Edwards

Capel Tanycoed

Swper a Noson Garolau
yn festri'r capel
nos Wener, Rhagfyr 20
am 7.00 o'r gloch
Croeso cynnes i chi ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig

Plaid Cymru a'r Cylch
Safbwynt Gwleidydd Ifanc
Sgwrs gan Llywelyn Williams
Nos Fercher, Ionawr 15fed 2014
am 7.30 yr hwyr
Yn y Sefydliad Coffa, Llanrug
CROESO CYNNES I BAWB

Eco Nadolig 2013.indd 12 17/12/2013 11:23

TECSTILIAU

Tecstiliau Adran Babanod (Addurno Bag)
1. Ynyr Gwilym
2. Guto Ewart Parry & Luned Llwyd
3. Alaw Angharad & Emily Jones & Twm Llywelyn Brookes

Tecstiliau Adran Iau (Clustog)
1 Erin Gwilym & Leia Nel & Beca Fôn Parry
2. Ceri Hickey & Mared Llwyd & Mared Enlli
3. Aled Huw Jones, Mali Elin Brooks & Emily Ann Williams & Guto Whiteside Thomas & Beth Whiteside Thomas

Tecstiliau Oedran Uwchradd (Bunting)
1. Robin Whiteside Thomas
2. Anna Whiteside Thomas

Tecstiliau Agored (Unrhyw eitem)
1. Anwen Edwards
2. Eryl Williams
3. Bethanne Williams

COGINIO

Coginio Meithrin /Derbyn (Cacennau Crispi)
1. Harriet Garth Jones-Ellis
2. Anest Hickey
3. Sioned Gwenllian Hughes, Owain Eifion Land & Morgan Rowlands & Llion John Rees Williams

Coginio Blwyddyn 1 a 2 (Fflapjacks)
1. Guto Ewart Parry
2. 'Hello Kitty'
3. Emily Jones & Cadi Haf Roberts

Coginio Blwyddyn 3 a 4 (Cookies)
1. Mared Enlli Parry Evans
2. Osian Llyfni
3. Lowri

Coginio Blwyddyn 5 a 6 (Traybake)
1. Elliw Morris
2. Deian Llyfni & Osian Eifion Land
3. Guto Whiteside Thomas

Coginio Blwyddyn 7,8 a 9 (Shortbread)
1. Efa Lewis Roberts & Teleri Jones
2. Anna Whiteside Thomas
3. Sion Eifion Land & Megan Wyn Pritchard

Coginio Blwyddyn 10,11,12 a 13 (Cwrs Cyntaf)
1. Math Roberts

Coginio Agored – Merched (Bara Brith)
1. Eirianwen Thomas
2. Bethanne Williams
3. Rhian Whiteside Thomas & Teleri Medi Jones & Catrin Thomas

Coginio Agored – Dynion (Chilli)
1. Dafydd Roberts
2. Irfon Jones
3. Osian Evans & Dafydd Whiteside Thomas

Coginio Agored Jam/Marmalêd
1. Gareth Jones
2. Eirianwen Thomas

Coginio Agored Coctel
1. Dafydd Roberts

Coginio Fferins Cartref
1. Olwen Hughes & Carys Williams

GOSOD BLODAU

Gosod Blodau Agored (Addurn Bwrdd i ddathlu penblwydd)
1. Meirwen Lloyd
2. Meirwen Lloyd
3. Mair Parry

FFOTOGRAFFIAETH

Ffotograffiaeth (Unrhyw lun ar y thema Rhyfeddodau
Enfys - Cartwn - Cerbyd
1. Erin Gibbard
2. Sion Eifion Land
3. Owain Llyfni & Cian Gibbard

NODDWYR EISTEDDFOD 2013

Dymuna Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch i'r cwmniau lleol am noddi eisteddfod eleni yn ariannol:

Cwmni Arvonia	£40.00
Siop Trin Gwallt a Harddwch Elaine's	£25.00
J M Jones a'I Feibion (Gwaith Coffaol)	£25.00
Y Dyn Cig	£10.00
Londis Llanrug (Cynllun bagiau plastig)	£50.00
Pat ac Edgar, Post Llanrug	£20.00
London Garage, Cwm y Glo	£10.00
Cyngor Cymuned	£300.00
Merched y Wawr Llanrug	£50.00
	£530.00

Eco Nadolig 2013.indd 13 17/12/2013 11:23

Cyngerdd Band Llanrug a Gwobrwyo Enillwyr

Mathew Wiggins yn derbyn Tarian DLO

Ioan Elis Hughes yn derbyn Tarian Goffa John Tame

Bandiwr y Flwyddyn - Kai Burgess

Thomas Speddy yn derbyn Tarian Goffa Terry Lloyd Jones

Nadolig Llawen
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth
H. E. HUGHES
A'i Feibion
Bwthyn Gadlas Llanberis
GWERTHWR GLO
OLEW GWRES CANOLOG
(01286)
870444

Blodau Racca
Penisarwaun Ffôn: 870605
Rhodd o'r Galon yw Blodau
Nadolig Llawen
A diolch
am eich cefnogaeth
oddiwrth
Alwyn a Sarah
RITHOEDD CELYN
COED NADOLIG
"CREM POTS"
A RITHOEDD DRWS
Basgedi Planhigion
Trefniadau
Blodau Silc

Eco Nadolig 2013.indd 14 17/12/2013 11:23

Codi ymwybyddiaeth am beryglon baw cŵn

Disgyblion Cwm y Glo.

Y tymor hwn mae disgyblion brwdfrydig Ysgol Cwm y Glo wedi bod yn asesu glendid strydoedd yr ardal. Fel rhan o'r prosiect, dyluniodd disgyblion yr adran iau bosteri a fydd yn cael eu gosod fel arwyddion o amgylch y pentref i godi ymwybyddiaeth am beryglon baw cŵn.

Mae arwydd terfynol disgyblion Cwm y Glo yn un lliwgar sy'n denu'r llygad gyda'r slogan 'Nhw sy'n pwpio chi sy'n sgwpio'. Lleolwyd yr arwyddion ar hyd strydoedd Cwm y Glo yn cynnwys blaen yr ysgol, ger y parc sglefrio a thu allan i'r cae chwarae.

Rhai o ddisgyblion Ysgol Dolbadarn gyda Gwen Alun, swyddog Trefi Taclus y Cyngor.

Meddai Pennaeth Ysgol Cwm y Glo, Nia Glyn Oliver:

'Rwyf yn falch bod y disgyblion yn cymryd sylw o'r hyn sydd o'u cwmpas ac yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth i'r ardal leol. Rydym yn ceisio codi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth ac mae'n braf eu gweld yn cydweithio gyda'r Cyngor ar hyn sydd yn bwysig iddynt. Diolch i Fenter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd am roi y cyfle iddynt.'

Disgyblion Dolbadarn, Llanberis

Gwen Alun, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd gydag Emlyn Baylis, Cadeirydd Grŵp Datblygu Llanberis a disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Dolbadarn.

Wedi wythnosau o waith caled gan holl ddisgyblion Ysgol Dolbadarn, mae posteri a ddyluniwyd ganddynt i godi ymwybyddiaeth am faw cŵn wedi eu gosod fel arwyddion o amgylch pentref Llanberis a Nant Peris.

Mae'r arwyddion lliwgar terfynol yn effeithiol dros ben gyda'r neges glir 'Glanhewch ar ôl eich cŵn' arnynt. Mae'r arwyddion wedi eu lleoli mewn naw safle o amgylch pentref Llanberis yn cynnwys giât yr ysgol a llyfrgell y pentref ac un yn Nant Peris ym maes parcio Sherpa'r Wyddfa.

Roedd gwaith caled disgyblion Ysgolion Cwm y Glo a Dolbadarn yn rhan o fenter ehangach Trefi Taclus Cyngor Gwynedd sy'n anelu i godi ymwybyddiaeth am broblemau baw ci a'r ffaith fod lleiafrif anghyfrifol o berchnogion cŵn yn gwrthod glanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes mewn mannau cyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

'Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgolion Cwm y Glo a Dolbadarn am eu gwaith caled yn dylunio'r arwyddion. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth am y broblem baw cŵn ac mae angen i berchnogion gymryd cyfrifoldeb drwy lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes.

'Tydi hi ond yn deg fod pawb yn gallu cerdded mewn pentrefi heb bryderu eu bod am sathru mewn baw ci. Cyfrifoldeb y perchnogion ydi sicrhau bod Gwynedd yn sir lân a gwyrdd i drigolion lleol. Gobeithio y bydd y lleiafrif o berchnogion anghyfrifol yn dilyn neges glir disgyblion Cwm y Glo a Llanberis ac yn glanhau ar ôl eu cŵn.'

Mae'n drosedd gadael i gi sydd yn eich gofal faeddu mewn ardaloedd cyhoeddus. Bydd unrhyw un sy'n anwybyddu'r gyfraith yn wynebu dirwy yn y fan a'r lle o hyd at £100. Os nad ydi'r unigolyn yn talu'r ddirwy gallant dderbyn gwŷs llys a dirwy o hyd at £1,000.

Am fanylion pellach ynglŷn â chynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd cysylltwch â'r tîm ar 01766 771000 neu e-bostiwchtrefitaclus@gwynedd.gov.uk

Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

'Superlambanana"

(Y Gath Ddu yn Lerpwl)

Nid oedd un enw arni gan y bardd
a welodd "ddarn o'r nos" o flaen ei dân,
pan welaf un o'i theulu hollddu hardd
yn croesi'r ffordd – fe gofiaf yr hen gân.

Ddoe, gwelais gerflun modern o gath ddu
ym mhorth ysbyty ymchwil fawr y dre',
rhyw symbol anferth, safai yno'n hy'
a rhesi igam ogam gwyn fel gwe
yn cydio'n amlwg holl organau drud
drawsblanna'r arbenigwyr wrth ŷnt roi
parhad i fywyd, yn lle'r rhai cy'hud
a hanfod bod ohonynt wedi ffoi…

Neges 'Superlambanana' – yw byw –
ma lwc – cath ddu ond gwyrthiau dyn – o Dduw.

Symbylwyd y gerdd sydd ym Mhrif Fynedfa Ysbyty Frenhinol Lerpwl, pan welais ambell 'glaf' yn mwytho yr hen gath ddu wrth fynd yn betrusgar efo'i llythyr cyflwyno/apwyntiad i'r Dderbynfa!

Norman Closs

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Eco Nadolig 2013.indd 15 17/12/2013 11:23



Bocsys i blant Belarus!

Unwaith eto eleni rydym yma yn Ysgol Brynrefail wedi penderfynu cefnogi Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Fel rhan o'u gwaith Gweithio gydag Eraill sy'n rhan o gymhwyster y Fagloriaeth Gymreig cafodd 25 o ddisgyblion blwyddyn 12 ac 13 gyfle i arwain yr ymgyrch yn yr ysgol. Rhannwyd y disgyblion i bum gr□p gyda phob un yn gyfrifol am arwain ac ysbrydoli blwyddyn unigol o fewn yr ysgol. Rhoddwyd targed unigol i bob dosbarth a'r gobaith oedd casglu 420 o focsys fel ysgol.

Gweithiodd y criw yn ddiflino i arwain yr ysgol drwy ddosbarthu pamffledi, creu arddangosfa, cynnal gwasanaethau, ymweld â dosbarthiadau cofrestru a threfnu gwersi Addysg Bersonol ar destun 'Ymgyrch Plentyn y Nadolig'. Y nod oedd cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd yr ymgyrch fel eu bod yn cael eu sbarduno i lenwi bocs gydag anrhegion. Rydym yma yn boddi mewn digonedd yn ystod cyfnod y Nadolig ac mae'n bwysig iawn bod ein bobl ifanc ni'n ystyried eraill llai ffodus sy'n byw mewn amgylchiadau anodd dros ben. Bydd y bocsys bach yma sy'n llawn anrhegion yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r plant sy'n eu derbyn.

Yn ogystal llwyddodd y criw i gasglu dros £600 i gefnogi'r elusen drwy drefnu a chynnal gweithgareddau amrywiol a hwyliog fel gwerthu cacennau blasus amser egwyl, trefnu twrnamaint 'Mario Karts', cynnal caffi ar noson Eisteddfod yr ysgol, cynnal sioe 'Mrs a Mrs' yn neuadd yr ysgol amser cinio a threfnu parti i'r chweched dosbarth!! Yn amlwg, cafwyd llawer iawn o hwyl a sbri yn y gweithgareddau yma sydd hefyd yn gyfrwng i ddatblygu sgiliau cyd-weithio, trefnu a meddwl entrepreneraidd y chweched dosbarth.

Penllanw'r holl waith anhygoel yma oedd llwytho fan 'Ymgyrch Plentyn y Nadolig' gyda 306 o focsys Nadoligaidd ar brynhawn Mercher, Tachwedd 20fed. Gwnaeth y disgyblion hyn yn llawn balchder gan dderbyn canmoliaeth uchel gan Mr Wyn Owen, un o drefnwyr yr ymgyrch yng Ngogledd Cymru. Dywedodd mai Ysgol Brynrefail sydd wedi casglu'r nifer mwyaf o focsys trwy'r gogledd ac roedd yn rhyfeddu at ein llwyddiant. Bydd y bocsys yn mynd i Belarus eleni a hoffem ddiolch i chi i gyd am gefnogi'r ymgyrch werthfawr yma eto eleni. Er na lwyddwyd i gasglu 420 o focsys credwn fod yr ymdrech i godi £600 a 306 o focsys yn llwyddiant anhygoel. Golyga hyn y bydd o leiaf 306 o blant Belarus yn teimlo cyfeillgarwch a chariad Ysgol Brynrefail dros gyfnod y Nadolig.

Eco Nadolig 2013.indd 16 17/12/2013 11:23

"Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"

Helpwyr Bach Santa

Ar ran Anna Wyn, Chloe, Guto a'r teulu oll yn Ysgol Brynrefail carwn ddymuno Nadolig llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr a chefnogwyr Eco'r Wyddfa.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig

Y mae Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn gofyn i ni gysidro llenwi bocs gyda danteithion fydd yn goleuo bore Nadolig rhyw blentyn sydd yn byw mewn gwlad ddifreintiedig

A welwch chi focs yn y llun? Wel na, oherwydd mae dosbarth12.1, yn rhan o'u gwaith tuag at Fagloriaeth Cymru wedi cynnal digwyddiadau mewnol ac yn y gymuned sydd, yn ogystal â'u bocsys, wedi codi'r swm sylweddol o £600.

Y mae'r cyfanswm a gasglwyd ganddynt chwe gwaith yn fwy na'r cyfanswm a gasglwyd y llynedd.

Hawl i Holi

Cafwyd bore gwleidyddol iawn yn y llyfrgell yn Ysgol Brynrefail ar Ragfyr 2il! Cynhaliwyd sesiwn 'Hawl i Holi' gyda gwleidyddion lleol i flwyddyn 12 fel rhan o'u gwaith BAC. Daeth Mr Aled Roberts o'r Democratiaid Rhyddfrydol, Mr Siôn Wyn Jones o Lafur a Chynghorydd Bethel, Mr Alun Ffred Jones o Blaid Cymru a Mrs Antuanette Sandbach o'r Ceidwadwyr atom i ateb cwestiynau'r disgyblion.

Trefnwyd y cyfan ar y cyd gydag Mrs Ann Williams, Swyddog Addysg y Cynulliad a chadeiriwyd y sesiwn yn hyderus a threfnus iawn gan Gwenllian Jones a Siôn Talfryn o flwyddyn 12. Holwyd y gwleidyddion yn dwll am amrywiol destunau megis rhywioldeb, chwaraeon, yr amgylchedd, trafnidiaeth cyhoeddus a'r laith Gymraeg. Roedd hi'n ddifyr iawn clywed barn y panel a oedd yn cael munud union i ymateb i gwestiynau'r gynulleidfa. Roeddent yn gytûn bod angen amddiffyn yr iaith Gymraeg yn ardal Eryri ond yn anghytuno am safle pêl-droed a rygbi yng Nghymru – ym marn Mrs Sandbach mae angen mwy o sylw i chwaraeon merched yng Nghymru tra'r oedd Mr Siôn Jones yn teimlo'n gryf mai rygbi yw gêm Cymru.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y disgyblion i'r weithgaredd gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt wedi mwynhau ac yn gweld gwleidyddiaeth yn berthnasol iddynt hwy. Cafwyd canmoliaeth uchel i'w gwrandawiad a'u cwestiynau gan Mr Alun Ffred Jones. Pwy a wyr – efallai y bydd un o griw Brynrefs yn cael ei ysbrydoli i ddilyn ôl ei droed!

Awdur Cyhoeddedig

A'r Nadolig yn nesau bydd amryw ohonoch yn mynd at gwmni Amazon i sicrhau pryniant anrhegion. Eleni, ymhlith yr holl gyfrolau o lyfrau sydd ar werth fe welwch un nodedig. Nodedig am ei fod yn cynnwys gwaith William Lamb, blwyddyn 11.

Cyhoeddwyd 'Wild 'n Free Too' gan y sefydliad 'Born Free' ar ôl cystadleuaeth genedlaethol i ddarganfod storiau a darluniau gan awduron ifanc 9-16 am anifeiliaid.

Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Kate Humble, ymhlith eraill, ac fe gyhoeddwyd llyfr sydd yn dal hanfod yr anifail gwyllt.

Eco Nadolig 2013.indd 17 17/12/2013 11:23

Argyfwng

Ceri Griffiths enillydd Tlws yr Ifanc yn eisteddfod Llanrug

Nid oes un diwrnod erioed yn fy mywyd wedi mynd heibio mor araf â'r dydd hwn. Rhyw awr yn ôl roeddwn yn hapus braf yng nghwmpeini fy annwyl ferch, a rwan rwyf yn eistedd yn ddistaw yng nghadair anghyfforddus y swyddfa heddly ar fy mhen fy hun heb lais cysurus I roi gwên ar fy wyneb llwm.

"Allwn ni ofyn tua faint o'r gloch yr aeth Cadi ar goll, Mrs Jones?" gofynna'r plismon praff o fy mlaen, yn syllu ar ddarn o bapur ar y ddesg o'I flaen.

Mae yna lwmp anferth yn fy ngwddw yn fy nadu I rhag ateb a mae yna ddarn bach ohona I eisiau rhedeg allan o'r ystafell dywyll a gadael fy emosiynau yn rhydd ond gyda thrafferth, llwyddaf I fwmblo, "Un o'r gloch y prynhawn 'ma."

Edrycha arnai a crychu ei drwyn cyn troi yn ôl at ei bapur a sgwennu ambell I air mewn ysgrifen blêr mewn lle gwag. Mi fyswn yn rhoi unrhywbeth I gael Cadi yn ôl yn saff wrth fy ochr, ei bochau coch yn codi gyda'I gwên tlws, ond mae yna ffŵl yn rhywle wedi cael gafael arni. Ffŵl mochynnaidd sy'n haeddu cael y gosb gwaethaf ei fywyd. Pam na allai weld bod herwgipio genod bach yn ofnadwy? Pam nad yw'n sylwi ei fod yn torri calonau gymaint o bobl? Pam mae hyn yn gorfod digwydd I fy merch i?

Tawelwch anghyfforddus sy'n llenwi'r ystafell gul a thywyll. Dim byd arall ond llonyddwch anifir pawb sydd o fy nghwmpas yn teimlo piti drostai yn lle gwneud rhywbeth defnyddiol yn y hunllef 'ma. Dwi ddim eisiau iddynt gydymdeimlo, yr unig beth y gallent wneud I fy mhlesio yn fawr ar hyn o bryd yw chwilio am Cadi a gwneud yn siwr ei bod yn saff cyn iddi droi yn rhy hwyr.

"Fedrwch chi ddisgrifio edrychiad Cadi I ni?" gofynna'r plismon eto yn edrych arna I wrth wneud wyneb pryderus ofnadwy fel pe bai yn gorfodi I mi ateb ei gwestiwn.

"Mae hi'n reit fychan I'w hoed gyda gwallt hir melyn a llygaid glas," dywedaf yn ddistaw wrtho.

Un gair arall o fy ngheg a fydda I'n siwr o gychwyn llefain yn uchel he bots pwy sydd o 'nghwmpas. Mi fydd hi'n rhy hwyr cyn bo hir, pam nad ydynt yn cychwyn chwilio cyn I bethau fynd yn rhy bell?

Gwasgad law Cadi'n dynn wrth gerdded I mewn I'r farchnad. Nid yw'n ddiwrnod braf iawn, ond mae'r halu yn trio'I orau I ddod I'r golwg ar ôl cuddio tu ôl I'r cymylau drwy'r bora.

"Be gawn ni I de, cariad?" gofynnaf wrth edrych ar res o fara ffres o'n Blaenau.

Dim ateb a wna Cadi wrth gwrs, ond pwyntio yn gynhyrfus at focsiad o 'fish fingers' yn y rhewgell. Mae hi wastad yn bihafio yn swil mewn llefydd diethr, ond yn siarad fel melin bupur adref gyda mi a'I thad. Rydym yn dathlu penwythnos I'r genod tra bod Dafydd I ffwrdd mewn cyfarfod pwysig gyda'I waith.

Gwenaf I lawr ar y ferch pregus, tlws wrth fy ochr, a hitha'n gwenu fel giât yn ôl arnai gyda thwll mawr rhwng ei dannedd ffrynt. 'Ciwt' fel mae pawb yn ei galw. Cerddaf I yn fy mlaen a gadael iddi edmygu'r bariau mawr o siocled tra byddaf I yn mynd I nôl ychydig o ffrwythau ar ochr arall y rhes. Un munud ydw I yn dewis ambell I afal ac oren a'u rhoi yn y basged, cyn troi yn ôl at lle yr oedd Cadi yn sefyll. Ond tydi hi ddim yno erbyn hyn. Mae'n rhaid ei bod hi wedi crwydro I'r rhes nesaf I gael golwg ar beth arall sydd yn dal ei ffansi. Cerddaf o gwmpas y gornel a disgwyl iddi fod o 'mlaen I, ond tydi hi ddim I'w gweld yn nunlle. Ble mae hi? Tydw I heb ei gadael hi dim ond am rhyw funud, a tydi hi ddim yn digon stable ar ei thread I redeg I rywle mor gyflym.Beth sydd wedi diwgydd iddi? Rhedaf o amgylch y siop fel dynes wirion ond does gandda I ddim ots o gwbwl y funud yma. Gweiddaf amdani drosodd a throsodd ond dwi byth yn cael yr ateb rydw I'n ei ddisgwyl. Brysiaf at flaen y siop mewn panig I edrych os ydi hi wedi defnyddio hyna o'r synwyr cyffredin sydd ganddi I ddod yma I chwilio amdana I, ond tydi ei gwallt euraidd na'I chorff bychan nunlle I'w weld yma. Mae fy nghalon yn curo mor galed rwyf yn digon siwr bod pawb yn y siop yn gallu ei glywed yn uchel. Mae'r nerfau yn mynd drwyddaf a ni allaf gadw my nwylo yn llonydd.

"Esgusodwch fi, fedrwch chi alw am Cadi Jones I ddod I flaen y siop, plis?" gofynnaf I'r ddynes tu ôl I'r til agosaf ata i.

Rwy'n crynnu fel deilen erbyn hyn, ac mae hi yn amlwg yn sylwi hynny gan ei bod hi ddim yn oedi o gwbwl cyn estyn y meic ar ochr ei desg a siarad trwyddo.

"Cadi Jones I flaen y siop plis," dweda gan ailadrodd y frawddeg rhyw dair gwaith.

Mae'r munudau yn pasio yn araf, un ar ôl y llall, y tician o'r gloc yn rhy uchel I fy nghlustiau. Mae hyn yn erchyll ac mae'r bosibilrwydd o ddod o hyd I Cadi yn mynd yn llai ac yn llai pob eiliad sy'n llusgo heibio.

Gollynaf fy siopa ar y llawr a gadael I fy mhen ddisgyn yn llipa I fy nwylo oer. Does dim hanes ohoni gan neb ac mae bron I bob aelod o'r staff yn trio eu gorau I ddod o hyd iddi tra fy mod I yma yn panicio yn llwyr ac yn methu'n glir a rheoli patrwm fy ngwynt. Pan mae'r staff yn dod yn ôl ataf yn waglaw a'u gwynebau yn llawn siomedigaeth amlwg, rwy'n gwybod bod hyn yn golygu un peth ac un peth yn unig. Mae hi wedi cael ei chipio.

"Gwenllian?"

Neidiaf wrth glywed llais fy ngŵr yn dod o'r tu ôl I mi. Rhedaf ato a syrthio I mewn I'w freichiau, yn dechrau beichio crio I mewn I'w ysgwydd.

"Oes 'na unrhyw newyddion eto?" gofynna Dafydd wrth yr heddlu a'I lais yn crynnu tra mae wrthi'n fy nghysuro.

"Dim eto, ond rydym wedi cysylltu â'r holl heddlu lleol I gyd I gychwyn chwilio am eich merch," medda'r blismones sydd wedi bod yn sefyll yn nghornel yr ystafell tra mae'r dynion wedi bod yun fy holi'n dwll.

"Efallai y peth gorau I chi wneud yw mynd adref I orffwys nes rydym yn cysylltu â chi yn y bore," awgryma blismon arall sydd yn sefyll yn stond fel delw, ei wyneb yn berffaith llonydd tra bod ei geg yn agor a cau.

Does gena I ddim amser I ddadlau oherwydd mae Dafydd wedi cytuno yn barod ac wrthi'n fy nhynnu I'r car o flaen y swyddfa. Mae'r tawelwch rhyngddom yn anifir. Mi fysai'n gelwydd dywyll I ddweud fy mod yn hapus ar yr eiliad yma. Mae popeth wedi mynd o'I le ac rwyf yn dechrau amau os yw hyn I gyd wedi digwydd o fy achos i. Rwy'n teimlo'n wag heb fy merch yn y mreichiau, ac mae'r teimlad o euogwydd yn troi yn fy mol. Mae'n dda bod Dafydd yma I yrru adra neu ni fuaswn yn gallu canolbwyntio ar y lôn hir o mlaen.

Arafa'r car o flaen y tŷ sydd yn teimlo'n ddiethr I mi, a gwasgaf law Dafydd cyn llithro allan o'r car yn araf. Mae pobeth yn teimlo'n wahanol yma heb Cadi wrth fy ochr, heb neb I neidio wrth fy nhraed wrth I mi agor y drws ffrynt a charlamu ymlaen I'r gegin I helpu gyda'r neges. Mae'r tŷ yn fynwent distaw a thywyll heb olau I ddisgleirio ar y cerrig beddi oer. Mae hyn yn hunllef, un dychrynllyd ofnadwy a digon erchyll I wneud I mi neidio allan o fy nghroen os glywaf unrhywbeth o fy nghwmpas. Pam Cadi? Pam mae yna person mor gwarthus a chas wedi ei chymeryd hi? Mae'r sefyllfa I gyd yn iasol ac yr unig beth yr allaf wneud yw cau fy llygaid a gobeithio. Gobeithio bod yna rywun yn mynd I ddod o hyd I fy mabi annwyl a'I dod â hi yn ôl adref yn ddiogel I ni gael bod yn deulu hapus eto.

Arhosaf am alwad ffôn drwy gydol y nos, yn poeni'n arw bod Cadi allan yn rhywle gyda dyn diethr sy'n siŵr o wneud rhywbeth hyd yn oed gwaeth iddi. Rydw I'n troi a throsi yn fy ngwelu fel bod y byd yn mynd I ddod I ben yr eiliad hon. Ar ôl cwpwl o oriau poenus a phendronus, mae fy llygaid yn dewis rhoi'r ffidil yn y to a chau'n araf, yn gadael I mi syrthio I mewn I gwsg aflonydd, yn fy ngadael gydag un cwestiwn yn benodol ar fy meddwl. Lle mae hi?

Eco Nadolig 2013.indd 18 17/12/2013 11:23

Gobaith

Chloe Roberts oedd enillydd y Gadair yn Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo. Dyma'r darn rhyddiaith a enillodd y brif wobr iddi.

Pawb yn dathlu, chwerthin, cael hwyl a syllu ar y tân gwyllt lliwgar sy'n sgrechian mewn i enaid ein cyrff. Bloeddio a chanu caneuon Cymreig wrth i'r tymor o hapusrwydd a charedigrwydd eang ddod i ben. Ar yr adeg honno sut y gall pethau fynd o'i le? Y frawddeg sy'n llifo drwy fy ngwythiennau i ers misoedd. Mae popeth wedi newid ac alla i ddim credu eu bod wedi digwydd i'n teulu 'hapus' ni. 31ain o Ragfyr oedd hi pan gefais i'r teimlad fod rhywun yn rhwygo fy nghalon mewn darnau bychan ac yn eu lluchio ar y llawr fel 'jig-so' oedd yn amhosib eu rhoi yn ôl at ei gilydd. Roedd y noson wedi mynd heibio yn ofnadwy o gyflym a dwi'n cofio Dei a minnau wedi laru bellach felly roedd hi'n amser mynd i'r gwely, gan gofio fy mod angen paratoi cinio dydd Sul i'r teulu cyfan yfory. Cadwais y drws yn agored rhag i un o'r plant ddod i mewn yn hwyrach ymlaen, yn enwedig Lois oedd wedi mynd i'r dref leol i ddathlu'r flwyddyn newydd.

Rhoddais fy mhen ar y glustog a chau fy llygaid wrth i sŵn y tân gwyllt ganu yn fy nghlustiau. Syrthiais i gysgu rhywsut ymysg y dathlu oedd yn dal i ddigwydd o amgylch y byd. Deffrais yn sydyn wrth glywed ffôn y tŷ yn canu. Edrychais ar y cloc larwm, roedd hi'n dangos 6.45am arno yn goch llachar, oedd yn gorfodi i mi grychu fy llygaid yn araf i mi ei ddarllen. Ymysg y ffôn yn canu roedd Dei wrth f'ochr yn chwyrnu wedi'r holl Southern Comfort a Lemonêd roedd wedi ei yfed neithiwr gan John pen coch.

Ochneidiais a cherdded i lawr y grisiau wrth sylwi fod drws Lois yn dal yn llydan agored. Gan fy mod ar frys i ateb y ffôn, oedd yn ailadrodd fel plentyn yn swnian, roedd yn rhaid i mi fynd yno – er fy mod yn hollol ddryslyd efo pwy oedd yn ffonio mor gynnar yn y bore. Atebais y ffôn gyda llais graclyd,

'Helo.' Etyb y dyn a ddywedodd,

'Mrs Roberts? PC Pete Rogers sy'n siarad. Mae gena'i newyddion drwg i chi. Mae eich merch wedi bod mewn damwain car tua 6.26 bore 'ma. Roedd hi yn y car gyda merch arall, mae'n debyg ei bod yr un oed â hi. Ydi o'n bosib i ni ddod draw i egluro..?'

Roedd popeth yn cloi amdana i, y waliau yn fy nghau i mewn i fyd o dywyllwch fod fy merch oedd yn ddeunaw oed wedi bod mewn damwain. Atebais yn sydyn,

'Yndi. Dewch yn sydyn PLÎS?' Gwaeddais ar Dei gyda fy holl nerth o waelod y "landing". 'Dei, tyd i lawr... mae Lois wedi bod mewn damwain!' Disgynnais ar y llawr fel bod disgyrchiant wedi stopio yn gyfan gwbl. Roedd dagrau yn llifo i lawr fy ngruddiau fel rhaeadr oedd yn amhosib ei stopio. Gafaelodd Dei amdanaf yn dynn wrth i mi deimlo ansicrwydd a nerfusrwydd yn ei afael oedd yn cyfleu tristwch.

Wrth i'r heddlu gyrraedd roedd popeth yn waeth ac yn waeth. Roedd eu wynebau yn wyn ac yn ddi-emosiwn fel bod eu personoliaethau wedi diflannu yn llwyr. Wrth iddynt ddangos lluniau o'r sefyllfa roeddwn yn methu credu sut gallai damwain car fod mor erchyll. Roedd y car wedi'i droi oddi tanodd, y drychau wedi'u torri'n ddarnau bach miniog ar hyd y lôn oedd yn disgleirio yn fflach y camera. Roedd hyn yn amhosib fod fy merch, Lois, wedi mynd. Tu ôl i fy meddwl roedd ychydig o obaith.

Syllais ar y llun hollbwysig oedd ar ben silff y tân. Llun o Dei, fi, Lois, Caradog a Leusa, ar gopa'r Wyddfa tua dwy flynedd yn ôl. Roedd pawb mor hapus. Pawb yn gwenu. Yn union fel noson y flwyddyn newydd. Wrth iddynt ddisgrifio anafiadau Lois roedd o fel petai rhywun yn fy nhrywanu gyda chyllell finiog ar draws fy nghorff. Cefais funud pan oedd amser a phopeth yn teimlo fel eu bod wedi stopio am eiliad. Roeddwn yn ail-fyw yr amser pan oeddwn yn rhoi genedigaeth i Lois fach. Fy mywyd. Fy merch. Fy anadl. Syrthiais yn ôl i realiti a chymryd anadl fawr oedd yn achosi poen yn fy mhen. Gafaelais yn Dei gyda fy holl nerth, oedd yn teimlo fel ei fod yn cael eu sugno i ffwrdd oddi wrtha i. Collais ferch. Collodd Caradog a Leusa chwaer fawr holl bwysig. Roeddwn yn gallu gweld ei gwên yn fy meddwl, dannedd perffaith, llygaid brown mawr oedd wedi'u coluro'n naturiol. Gwallt coch tywyll oedd yn disgyn i'w le yn berffaith fel yr oedd ei chymeriad hi yn y byd.

Wrth i mi fynd i mewn i'w hystafell fechan roeddwn yn mygu gan arogl persawr ei hedd. Cymerais eiliad i edrych ar fy ffôn oedd ym mhoced fy ngwn nos. Roedd tecst arno gan Lois am 6.00yb – 'Ar fy ffordd adref mam. Blwyddyn Newydd Dda. Alla i ddim disgwyl cael cinio efo chi a'r teulu yfory. Caru chi, dad Caradog a Leusa bach xxx.' Caniad y tân gwyllt yn fy mhen wrth floeddio yn ddychrynllyd yn gymysg a sŵn y car yn hitio'r wal a sgrech Lois.

'Na i fyth anghofio'r noson honno. Bydd y tân gwyllt yn fy ngorfodi i alaru â phoen merch mor ifanc, oedd gyda gobaith o fynd i brifysgol yn y dyfodol. Pob noson flwyddyn newydd byddwn nawr fel teulu yn edrych i'r awyr ar un seren sy'n disgleirio i lawr arnom. Dim dathlu'r flwyddyn newydd, ond dathlu bywyd fy merch, Lois.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch

GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362 07979620996

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddiwrth
J O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Eco Nadolig 2013.indd 19 17/12/2013 11:23

Carol y Cofio

Awn eto i Ddinas Dafydd
y 'Dolig newydd hwn,
mewn ysbryd a thrwy garol
o ganol byd y gwn.

Cawn wefr o'r côr angylion
a gwŷr y preiddiau mân,
yn dychryn oll wrth glywed
'Newyddion Da' y gân.

Draw acw – beudy tlodaidd
dan olau'r Seren dlos
fu'n arwain y tri brenin
o'r dwyrain draw dros ros.

A phan gyrhaeddwn ninnau
a gweld i'r gwely gwair
bydd beudy yn troi'n demel
gan lewyrch baban Mair.

Ni fydd na rhenc na dosbarth
pan blygwn wrth Ei grud,
un fydd gwreng a bonedd
yng ngholeg Prynwr Byd!

Ond cofiwn – o'r tu allan
i breseb Mab y Dyn
ym Methlem roedd Calfaria
a Herod falch ei hun!

Ac wrth in roi gwrogaeth
yn wylaidd wrth ei ben
mae'n Frenin mewn Cadachau
mae'n Arglwydd daer a nen.

Norman Closs



Mandela.

Ai seren wib Madiba, - ai'n unfarn
creu'r enfys rhag chwalfa?
I wiro'r cof wŷr Affrica
rheolwch y cweryla.

R.LL.J.

ATEBION CWIS NADOLIG

1. Corbett Sports 2. Mike Phillips 3. Mark Hughes, Tony Pulis 4. Pêl-rwyd 5. Banc-y-felin 6. Goliau i rwyd eu hunain (own goals) 7. Gary Lineaker 8. Kieran Reid (SN) 9. Melbourne 10. Super-middlewight 11. Gary/Phil Neville, Nicky Butt, Paul Scholes, David Beckham, Ryan Giggs 12. Kolkota 13. Triathalon 14. Yeovil 15. 170 (3x20, 3x20, 50)

Eco Nadolig 2013.indd 20 17/12/2013 11:23

Suo-gân Mair

Tôn: Elers

Cwsg di, fy maban, huna wrth fy mron,
Noson o ryfedd wyrth yw'r noson hon.
Wele, mae'r seren ddisglair uwch dy ben,
Datgan y mae ddyfodiad Brenin Nen.

Cwsg di, fy maban, wrth fy ochr i,
Wele, o'r Dwyrain daw y doethion dri;
Arwain yn ddyfal mae y seren wen -
Plygant, addolant di O! Frenin Nen.

Cwsg di, fy maban, daw'r bugeiliaid mwyn,
Gadael eu praidd a wnânt ar ddôl a llwyn;
Hwythau a glywsant seiniau uwch eu pen -
Anthem o foliant glân, O! Frenin Nen.

Cwsg di, fy maban, ffoi fydd raid i ti,
Draw tua'r Aifft yn ddistaw gyda mi.
Herod ni chaiff dy ddifa di drwy sen -
Mawr fydd dy enw di, O! Frenin Nen.

Cwsg di, fy maban, aros mae'r holl fyd,
Disgwyl yn ddyfal am yr Un o hyd.
Gweddi a glywn o'r ddaear, seren wen,
Gwared ni nawr, Ryfeddol Frenin Nen.

John H. Hughes

Carnifal Llanddeiniolen.

Pryd cynhaliwyd carnifal ddiwethaf yn Llanddeiniolen? Ac nid son am y plwyf a wnaf, ond am yr ardal wreiddiol o amgylch yr eglwys. Daeth y llun i law gan Brenda Morris Jones o Lanwnda (ond o Landdeiniolen yn wreiddiol), a gall ddyddio'r llun, oherwydd cynhaliwyd y carnifal – a chwaraeon i'w ganlyn – ar ddiwrnod coroni'r frenhines, sef yr ail o Fehefin 1953. Sam Williams, Llan, a drefnodd yr achlysur, a hynny yng nghae Gors Bach, gyferbyn a'r ysgol.

Dyma enwau'r rhai sydd yn y llun (ond nid pawb):

Rhes gefn (chwith i'r dde): Dennis Speake, Eurwyn Jones (sowldiwr), Mona Jones (Merch mewn gwisg Gymreig), Evelyn Morris, Selwyn Salisbury (mewn het uchel), ?

Rhes flaen (chwith i'r dde): Robat Roberts, Norah Thomas, Carol Gors Bach, Brenda Morris, Gwyneth Parry, ?

Pwy felly sydd heb eu henwi?

Eco Nadolig 2013.indd 21 17/12/2013 11:23

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Ymweliad y Cyfnod Sylfaen - Bore dydd Mawrth, Tachwedd 19eg, cafwyd amser bendigedig yn cerdded trwy Barc Glynllifon, roedd yr haul yn tywynnu trwy'r coed a'r plant wrth eu bodd yn chwilio am foch coed a dail lliwgar yr Hydref. Gan fod Mrs Sharon Jones wedi tyfu i fyny yng Nglynllifon roedd yn gallu rhoi ychydig o hanes i ni wrth ein tywys o gwmpas. Diolch i'r plant i gyd am ymddwyn yn ardderchog.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Tachwedd oedd Mr Michael Jones, Tyddyn Perthi, rhif 15. Llongyfarchiadau iddo. Dymuna'r pwyllgor diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r bêl bonws yn ystod y flwyddyn gan ddymuno pob lwc i bawb y flwyddyn nesaf!

Cinio Nadolig y Pensiynwyr Daeth dros 30 at ei gilydd i fwynhau cinio Nadolig blasus iawn yng Ngwesty Gwydir, Betws y Coed, dydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg. Dymuna pawb ddiolch i'r criw bach sydd yn trefnu hyn bob blwyddyn.

Parti Nadolig i'r plant - Cynhaliwyd te parti yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, Rhagfyr 19eg. Digon o fwyd a dawnsio ac, wrth gwrs, ymweliad gan Siôn Corn. Trosglwyddwyd yr elw i Gronfa Pensiynwyr y Pentref. Diolch i'r criw gweithgar am drefnu, roedd y Plant wedi mwynhau'n fawr iawn.

Dymuna Miss Mair Foulkes, 3 Bryn Hyfryd, ddiolch o galon i'w theulu a'i chymdogion, ac yn enwedig i Mr Len Porter a Mr Gareth Pritchard, am bob gofal a gafodd ar ôl ei damwain. Hefyd i Mr a Mrs Paul a swyddogion Cartref Nyrsio Penisarwaun am y gofal arbennig a gafodd yno. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Penblwydd arbennig. Llongyfarchiadau i Annie Hughes ar ei phenblwydd yn 90 oed. Dymunwn y gorau iddi i'r degawd nesaf.

Disgyblion Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun
Pa flwyddyn oedd hyn a beth oedd yr achlysur?
Rhes gefn: Sioned Williams, Dylan Pierce Williams, Sioned Roberts, Rhian Williams
Rhes flaen: Amanda Orrock, Bedwyr Evans, Iola Williams, Eurgain Haf Evans

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
Oddiwrth John Hughes Jones
Y DYN CIG
BRYN AFON LLANRUG
675190 • 673188 Symudol-07798 718188
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR • PARTION • PRIODASAU
PEN BLWYDD • BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL • PARTION RHWNG 40-400!
DEWCS MAE O'N FLASUS

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Eco Nadolig 2013.indd 22 17/12/2013 11:23

Y m d d e o l i a d Llongyfarchiadau i John Roberts, Pant Teg, ar gyrraedd ei ben-blwydd, yr oedran i ymddeol, a phob dymuniad da iddo ar ei ymddeoliad o'i swydd yng Nghyngor Gwynedd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i John Gwynedd, Nant ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 65 oed.

Merched y Wawr Cafwyd noson hwyliog yng nghwmni Pat Davies, Cwm y Glo, fis Hydref, pryd y bu'r aelodau yn ymdrechu i wneud clust dlysau. Ar ddiwedd y noson, fe'n synnwyd pob un o weld fod ein cynnyrch mor llwyddiannus o ddeniadol!

Buom yn dathlu'r Nadolig ym mwyty Blas yng Nghaernarfon. Roedd hon eto yn noson hwyliog a'r bwyd wrth fodd pawb.

Ar Ionawr 23ain, bydd un o feibion y pentref yn cynnal noson i ni. Mae Llion Iwan yn awdur nofelau a llyfr teithio ac yn gomisiynydd rhaglenni ffeithiol S4C. Byddwn yn siŵr o gael noson ddiddorol yn ei gwmni.

Ysgol Waunfawr

Rhagfyr 2013 Bu'n hanner tymor eithriadol o brysur a'r plant wedi mwynhau amrywiaeth o weithgareddau.

Hoffem ddiolch i'r rhieni hynny a gefnogodd 'Ymgyrch y Plentyn' eleni, bydd y bocsys yn siŵr o roi gwên ar wynebau plant bach sy'n dioddef gorthrwm rhyfel. Diolch hefyd am gefnogi'r nosweithiau rhieni a'r Ffair Lyfrau flynyddol.

Ysgol Brynrefail Bu plant blwyddyn 6 ar ymweliad yn Ysgol Brynrefail ddydd Llun, Tachwedd y 21ain. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau y profiad yn fawr ac yn edrych ymlaen i'w hymweliad nesaf.

Ymweliad Addysgol â'r Archifdy Cafwyd bore difyr iawn yng nghwmni Mr John Dilwyn o'r Archifdy yng Nghaernarfon fore dydd Gwener yr 22ain o Dachwedd. Yn y sesiwn gyntaf cafodd blwyddyn 5 a 6 gyfle i edrych ar artiffactau o gyfnod yr Ail Ryfel Byd. I ddilyn cafodd blwyddyn 3 a 4 gyflwyniad a'r gyfnod amser Fictoria.

Gweithdy Nadoligaidd Bu plant blwyddyn 3 a 4 yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy Mercher, Rhagfyr y 4ydd. Cawsant gyfle i ddysgu am draddodiadau'r Nadolig yn yr amser a fu, a chyfle i wneud addurniadau Nadolig. Yr un diwrnod bu plant blwyddyn 5 a 6 yn yr Amgueddfa yn Llanberis yn cael blas ar ddathlu yn oes Fictoria.

Cwmni Da Bu cwmni teledu Cwmni Da yn recordio'r plant yn canu'r carol Anifeiliaid y Stabal. Cewch gyfle i'w gweld a'u clywed mewn mannau o gwmpas y sgwâr yng Nghaernarfon cyn y Nadolig.

Miri Siôn Corn yn yr Antur Ar hyn y bryd rydym yng nghanol prysurdeb y Nadolig. Dyma restr o ddigwyddiadau'r pythefnos nesaf:

- Ffair Nadolig yn yr ysgol am 5:30 o'r gloch nos Fercher Rhagfyr yr 11eg.
- Sioe Nadolig – Nos Fawrth Rhagfyr yr 17eg, pnawn Mercher a nos Fercher Rhagfyr y 18fed.
- Cinio Nadolig- Rhagfyr yr 11eg a gwisgo Siwmper Nadolig.
- Cyngerdd dosbarth Meithrin ddydd Gwener, Rhagfyr yr 20fed, ac ymweliad gan Siôn Corn.

Hoffem fel ysgol ddymuno Nadolig Llawen i bawb a Blwyddyn Newydd Dda.

Y Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd oedd: £30: Mrs Ann Jones, Croesor; £20: Mrs C. Jones, Bryn Gwenallt; £190: Mr P.N. Greasley, 7 Pant y Waun.

Penodiad Newydd Mae Meddygfa Waunfawr a Llanrug yn hynod falch o groesawu aelod newydd i'r tîm clinigol. Yn wreiddiol o'r Bontnewydd, bu Rhian Lewis ers blynyddoedd yn gweithio fel Nyrs Arbenigol i'r Gwasanaeth Meddygon Teulu Tu Allan i Oriau yn Ysbyty Gwynedd yn asesu a thrin cleifion oedd angen triniaeth ar y diwrnod. Bydd cymhwyster a phrofiad Rhian yn y maes yn gaffaeliad sylweddol i'r Practis gan ehangu'r gwasanaeth a gynigir a mawr obeithir y bydd cleifion yn manteisio'n llawn ar ei harbenigedd.

Dyweddïo Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Aled, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd, ar ei ddyweddiad â Gwennan Humphries o Dan-y-Coed.

G e n e d i g a e t h Llongyfarchiadau i Lorraine a Jason Lee, 3 Dôl Erddi, ar enedigaeth mab bach, Ceelyn, ŵyr i Alison, 1 Tref Eilian ac i Tina, 11 Ael-y-Bryn, a gor-ŵyr i Angela, Stad Bryn Golau.

Daeth Carys ac Edgar, Glyn Awel yn nain a thaid i Ani, merch fach i Dewi a Niki a chwaer i Katie Haf ac Anna yn Bontnewydd, a gor-wyres i Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen.

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r rhai bach.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref a phob dymuniad da am wellhad buan i Nia Llwyd, Dolydd, Stad Tŷ Hen, wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan i Tony Brown, 2 Bryn Golau, wedi iddo dreulio cyfnod yn cael profion yn yr ysbyty.

Gwasanaeth Diolchgarwch Yn ystod y Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys y Waun cymerwyd rhan gan y plant yn canu emynau diolch – da iawn chi blant a diolch i chi.

Dymuniadau gorau i ddarllenwyr yr Eco dros ŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi ac i'r rhai sydd yn aros mewn cartrefi preswyl.

Dalier Sylw

Eleni, nid oes Apêl am gymorth i blygu y rhifyn nesaf o'r Eco oherwydd, erbyn hyn, mae'r papur bro yn dod o Wasg Dwyfor wedi ei blygu. DIOLCH i'r rhai ddaeth, yn flynyddol, i wneud y gwaith yn Festri Eglwys y Waun a diolch i swyddogion yr Eglwys am fod mor barod inni wneud y gwaith yno. Bydd Marian Jones, Dinorwig, yn dod yma i wneud y gwaith bwndelu ar gyfer yr ardal. Diolch iddi.

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd Dda
Oddiwrth Elaine a Staff
Elaine's
Llanrug
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Ffon 01286 672 023



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Eco Nadolig 2013.indd 23 17/12/2013 11:23

NANT PERIS

Kate Pritchard (872331) econantperis@hotmail.com

Dymuna Mrs Gwenda Roberts, Glanrafon, ddiolch i'w ffrindiau, ei theulu a'i chymdogion am eu cyfarchion, cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phen blwydd yn 70 yn ddiweddar. Roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy – diolch yn fawr.

Parti'r pentref

Cafwyd noson hwyliog iawn ar nos Wener y 6ed o Ragfyr yn Nhy'n Llan ym Mhartin Nadolig y Pentref. Roedd yn dda gweld cymaint o bobol Nant gyda'i gilydd yn mwynhau'r bwyd ac yn cydganu gyda Martyn Rowlands! Diolch i Iola, Gwenda a Cheryl am drefnu ac i staff Ty'n Llan am y bwyd bendigedig. Nadolig Llawen!

Goleuadau Nadolig

Daeth criw da o bobl ynghyd i ganu carolau ac i oleuo'r goleuadau Nadolig lliwgar ar yr 2il o Ragfyr. Diolch i 'Bod Cathod' am ddod yno i ganu. Diolch i Rhian Pritchard, Ty isaf am oleuo'r pentref a diolch yn fawr i Dafydd a Tomos Owen o Lanberis am osod y goleuadau eleni.

TIM JONES
SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD
SYNUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR ÔL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

SWIGOD A SEBON
Gwasanaeth
Golchi a Smwddio
Altro • Ailwnïo
NADOLIG LLAWEN
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

YSGOL YRRU ELIDIR
Driving School
Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan ASC
07792121226
NEU
(01286) 882269
GWERS GYNTAF 2 AWR AM BRIS 1

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

Eco Nadolig 2013.indd 24 17/12/2013 11:23

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Ffôn: 870580

Cofion Anfonwn ein cofion cynhesaf at Edfryn Jones, Ty'n Twll ,sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain a gafodd gartref. Dymunwn adferiad buan iddo gan obeithio y bydd yn teimlo yn llawer gwell erbyn y Nadolig.

Profedigaeth Bu farw Malcolm Mathews Jones gynt o 4 'Rallt ar Dachwedd 24ain. Er iddo symud i fyw yn ddiweddar i Benisarwaun roedd ei wreiddiau yma ym Mrynrefail a'i deulu wedi trigo yma yn y pentref ers blynyddoedd lawer. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Ffair Grefftau Ddydd Sadwrn, Tachwedd 27ain, cynhaliwyd Ffair Grefftau yn Caban. Hwn oedd y tro cyntaf i'w chynnal a bu llwyddiant da ar y diwrnod gyda nifer o grefftwyr lleol yn arddangos eu gwaith.

Sefydliad y Merched Yn ystod y mis bu nifer o aelodau'r gangen yn dilyn cyrsiau mewn amrywiol grefftau ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.

Nos Wener, Rhagfyr 6ed, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched yn Eglwys Dewi Sant, Glanadda, Bangor. Rhoddwyd croeso cynnes i'r Gwasanaeth gan lywydd cangen Penrhosgarnedd ynghyd â'r ficer, y Barchedig Janet Fletcher. Cynrychiolwyd y gangen leol gan nifer o'r aelodau. Cafwyd darlleniadau o'r ysgrythur a cherddi Gŵyl y Nadolig gan aelodau o wyth cangen gyda chyfraniad gan Pat Jones ar ran cangen Brynrefail. Cafwyd datganiad hyfryd hefyd gan Jenny Lyon-Jones, Caer Madog o'r garol 'Haleliwia'. Arweinydd cerddorol y noson oedd Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed, a chafwyd ymateb rhagorol gan y gynulleidfa i'r rhaglen garolau gyda rhai o aelodau Côr Meibion Dinas Bangor wedi dod i ymuno yn y moliant. Roedd pawb yn gwerthfawrogi cyfraniad arbennig yr organydd Keith Lacey ond yng nghanol llawenydd y noson yn gofidio fod ei dymor fel organydd yn dod i ben yn Glanadda gan fod yr eglwys yn cau ei drysau yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn ar derfyn y gwasanaeth. Bydd cyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd ar Ionawr 16eg pryd y disgwylir Janice Jones, Tyddyn Perthi, Penisarwaun, i sôn am ei diddordeb o gadw gwenyn.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas Daeth tymor y Gymdeithas am 2013 gydag ymweliad â Phlas Glyn y Weddw, Llanbedrog. Treuliwyd prynhawn dymunol yn mynd o gwmpas yr Oriel i werthfawrogi gwaith nifer o arlunwyr gyda the prynhawn ar y terfyn a fwynhawyd gan bawb. Mae ein diolch i Dafydd Ellis, Gweledfa, am drefnu'r ymweliad a holl gyfarfodydd y tymor.

Oedfaon Rhagfyr Nos Sul, Rhagfyr 1af, cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad y Parch Harri Parri, Caernarfon, pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Y Sul dilynol gwasanaethwyd gan y Parch Geraint Roberts, Porthaethwy ac yn berthnasol i'w genadwri cafodd y gynulleidfa weld replica o allwedd y gell lle treuliodd y diweddar Nelson Mandela saith mlynedd ar hugain yn y carchar. Teimlem yn freintiedig gan mai hwn oedd y tro cyntaf iddo ei arddangos mewn gwasanaeth ac yntau wedi ei dderbyn fel anrheg gan aelod fu ar ymweliad â De'r Affrig pan oedd yn weinidog yng Ngherrigydrudion flynyddoedd yn ôl.

Cyfarchion yr Ŵyl Dymunwn anfon ein cofion gan ddymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Fendithiol i'n haelodau a'n cydnabod oll gyda chofion arbennig at un o'n blaenoriaid, Bertie Roberts, sydd wedi bod yn gaeth i'w gartref ers peth amser.

Oedfaon y Sul am 5.30 yr hwyr Rhagfyr

29: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

Ionawr 2014

5: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
12: Mr Dafydd Iwan, Caeathro
19: Mr Edward Morus Jones, Llandegfan
26: Parch Eric Jones, Bangor

Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwar canol ym mhob gair.

Y mis hwn:
5 gair = da;
10 gair = da iawn;
15 gair neu fwy – ardderchog.

C	R	W
L	A	E
E	G	R

Ateb y mis diwethaf: Blaengarw. Roedd yn bosibl cael dros 30 o eiriau o'r sgwar.

Eco Nadolig 2013.indd 25 17/12/2013 11:23

CHWILOTA

Ymateb i Steddfod Lewis, Lerpwl.

Daeth pedwar ymateb. Mrs Jennie Williams, Deiniolen yn anfon llun o Gôr Peleg Williams, oherwydd felly roedd y côr yn cael ei adnabod. Yn Festri Capel Disgwylfa y byddai'r côr yn ymarfer, a thynnwyd y llun hwn yn y cae ger Pont y Felin, Clwt y Bont. Roedd Rol Williams, Waunfawr hefyd yn cofio'r côr, ac yn tybio ei fod yn un o'r aelodau ieuengaf ynddo pan ymunodd wedi'r Ail Ryfel Byd.

Roedd y ddau ymateb arall yn son am yr arweinydd W. James. Roedd Geraint Hughes Roberts a Sarah Kelly, y ddau o Fangor bellach, yn ei gofio'n athro cerddoriaeth yn Ysgol Brynrefail. Ni chredai Sarah Kelly iddo aros yn hir, a dychwelodd ef a'i wraig a'i ddau fachgen i'r de. Bu farw'n weddol ifanc. Meddai Sarah Kelly, "Yr oedd yn arbennig o dda efo partion canu a chorau, ac yn gymeriad dymunol iawn."

Da deall hefyd y bydd ail gyfrol gan Sarah Kelly (dilyniant i 'Deilen ar yr Afon') yn ymddangos o'r wasg yn ystod yr haf nesaf.

Dywediadau am y tywydd.

Mae'r dywediad "Pan fo Moel Eilio'n gwisgo'i gap, fydd fawr o hap ar dywydd" yn eithaf wybyddus yn yr ardal hon, ond tybed glywodd unrhyw un o ardal Waunfawr ddywediad am y Mynyddfawr neu Fynydd Eliffant? Byddai Duncan Brown yn falch o gael y wybodaeth.

Cais am Wybodaeth.

Yn ddiweddar deuthum ar draws cyfeiriad at gerddor o Lanberis a oedd yn byw yn Mount Pleasant. Galwai ei hun yn Alaw Mai, ond Richard Jones oedd ei enw cywir. A dyna'r cyfan sydd gen i yn wybodaeth amdano. All rhywun ymhelaethu?

Ffynnon Cegin Arthur.

Wrth droi tudalennau'r Herald Cymraeg yn chwilio am hanes digwyddiadau Nadolig 1913, digwyddais daro ar hysbyseb ym mis Gorffennaf o'r un flwyddyn. Roedd wedi ei gosod ar flaen-ddalen y papur, ac yn llenwi hanner y dudalen; felly'n costio cryn dipyn! Hysbyseb oedd am KANSCO, sef y cwmni oedd yn potelu dwr Ffynnon Cegin Arthur. Yr oedd i'w gael am chwe cheiniog y botel, ac yn cynnwys digon o ddwr i ddigoni plentyn gwanllyd am dri diwrnod. Roedd poteli i ddiwallu anghenion meddygol oedolion am dri diwrnod yn costio swllt. Roedd hefyd yn bosibl prynu'r dwr "at ddefnydd allanol" mewn jariau carreg yn pwyso 3 stôn.

Ystyr KANSCO wrth gwrs oedd King Arthur's Natural Springwater Company, a'r cyfeiriad i'r cwmni yn yr hysbyseb oedd Cwm y Glo. Mae'n bosibl mai cyfeiriad yr orsaf trên agosaf oedd hwn.

RHEILFFORDD LLYN PADARN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

Diolch am ein cefnogi drwy gydol y flwyddyn



Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk
01286 870549

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid lleol am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn!

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

Eco Nadolig 2013.indd 26 17/12/2013 11:23

Cyfarfodydd Bwyta a Ffug Etholiad.

Ganrif union yn ol roedd trigolion yr ardal hon yn mwynhau y Nadolig heddychlon olaf am rai blynyddoedd – er na wyddent hynny ar y pryd, wrth gwrs. Felly, diddorol oedd pori drwy olrifynnau papurau newydd y cyfnod a gweld sut roedd cyfnod y Nadolig yn cael ei ddathlu ym mro'r "Eco" bryd hynny.

O fewn ychydig amser byddai cyfarfodydd recriwtio milwyr i ymladd yn y Rhyfel Mawr yn dod yn gyffredin, ond recriwtio pur wahanol oedd yn digwydd yn 1913. Chwi gofiwch i mi son ychydig rifynnau'n ol am y peldroediwr o'r Ceunant, William Pritchard, yn mudo i Canada. Digwyddodd hynny yn 19… Roedd Llywodraerth Canada bryd hynny yn ceisio'u gorau i ddenu mewnfudwyr a fyddai'n barod i weithio'n galed i ddatblygu'r wlad newydd. Ac erbyn diwedd mis Tachwedd 1913 roedd yr ymgyrch recriwtio wedi cyrraedd Llanberis. Ar nos Iau olaf y mis, yn y Concert Hall, roedd darlith dan nawdd Llywodraeth Canada – "A Lecture on Canada" i'w thraddodi gan ŵr o'r enw William Griffith, sy'n cael ei ddisgrifio fel Cynrychiolydd Llywodraeth Canada. Mae'n fwy na thebyg mai yn Gymraeg y traddodwyd y ddarlith. Tybed faint o chwarelwyr y fro gafodd eu perswadio i fentro am Canada o ganlyniad i'r ddarlith?

Troi golygon tua Canada neu beidio, mae'n ymddangos mai'r hyn oedd yn mynd â bryd cymdeithasau'r ardal yn ystod hydref a gaeaf ddiwedd 1913 oedd Cyfarfodydd Bwyta. Dyna'n union sut maent yn cael eu disgrifio, ac yr oeddent yn boblogaidd iawn yn Llanberis; neu o leiaf, roedd gohebydd Llanberis yn fwy parod i adrodd amdanynt na gohebwyr y pentrefi eraill! Mae perygl i ddychymyg fynd yn drên wrth geisio dyfalu beth yn union oedd Cyfarfodydd Bwyta. A'i cystadleuaeth i weld pwy allai fwyta fwyaf? Pwy oedd yn gwneud y bwyd? Pwy oedd yn cael mynychu'r cyfarfodydd? Oedd yna reolau pendant i lynnu wrthynt? Ond mewn gwirionedd, y cyfan a wneid yn y fath gyfarfodydd oedd cael pryd o fwyd ac adloniant – digon tebyg i'r clybiau cinio sy'n bodoli heddiw. Er hynny, roedd patrwm y noson yn amrywio. Mewn ambell gyfarfod, byddai'r gynulleidfa yn cychwyn gyda phryd o fwyd a'r adloniant yn dilyn; fel arfer gan y rhai fu'n bwyta'n gynharach. Mewn cyfarfodydd eraill, byddai'r adloniant ymlaen tra byddai'r gweddill yn bwyta. Yn anffodus, allwn ni ond dyfalu beth yn union oedd y bwyd: swper chwarel, lobscows, brechdannau? Pwy a ŵyr?

Yn yr wythnos cyn y Nadolig, roedd amrywiol gyfarfodydd yn cael eu cynnal yng ngwahanol bentrefi'r fro i ddiddanu'r trigolion. Roedd pobl Nantperis yn uchelgeisiol iawn, ac yn cynnal ffug etholiad, gyda thri aelod o'r pentref yn cynrychioli'r blaid Ryddfrydol, y blaid Geidwadol a'r blaid Lafur. Wedi dadlau brwd, y blaid ieuengaf, sef y blaid Lafur aeth â hi.

Mwy traddodiadol oedd y pentrefi eraill, megis y cyfarfod adloniadol gan ddoniau lleol a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun. A'r un math o beth oedd ymlaen led-led y fro. Ond roedd Pontrug hefyd yn fwy arloesol, gyda darlith yn cael ei thraddodi yng Nghapel Nasareth. Y testun oedd Taith y Pererin, ond fod 'hud lusern' yn cael ei defnyddio i ddangos lluniau i gyd-fynd â'r ddarlith. Ac meddai'r gohebydd lleol (meddyliwch fod y fath beth yn bod bryd hynny, a gohebydd newyddion Pontrug!), "oes y darluniau yw hon." Oedd, roedd ffasiwn newydd wedi cychwyn, a bu'r 'magic lantern' yn boblogaidd iawn am flynyddoedd wedyn: rhagflaenydd teilwng i'r 'power point' presennol mae'n debyg.

Ar Ddydd Nadolig, roedd cyfle i drigolion Llanberis fynychu cyfarfod pregethu yn y Capel Coch, gyda phregethwyr gwahanol ym mhob oedfa. Gwrando ar y tri neu ddethol a dewis!

Daeth y newyddion fod Mr a Mrs Barnard, Castell Bryn Bras, Llanrug yn bwriadu ymadael â'r ardal: newyddion trist iawn i drigolion y plwyf, oherwydd roedd y miliwnydd hwn yn hael iawn â thlodion, anffodusion a holl blant ysgol yr ardal. Cafodd ysgolion Llanrug sawl te parti yn anrheg gan deulu Bryn Bras, ac yr oedd tlodion y plwyf yn cael rhoddion o fwydydd ganddynt, yn enwedig ar y Nadolig.

Noddwraig arall sy'n cael diolch yn y wasg yw Mrs Parry, Plas y Nant, Betws Garmon, oedd yn paratoi lluniaeth ar gyfer ei thenantiaid yn y plwyf hwnnw.

Dros wyliau'r Nadolig a'r Calan yr adloniant pennaf oedd cynnal eisteddfodau. Erbyn heddiw, y tueddiad yn ein bro ni yw cynnal ein heisteddfodau yn ystod y mis cyn y Nadolig.

Cyfarchion ar gerdyn Nadolig

I mi, y wefr eleni
Yw Duw yn ymgnawdoli
Ei fawredd yn y Baban Bach
Yn achos Gŵyl y Geni.

John H. Hughes

Ymateb i NECACO.

Cafwyd cadarnhad mai yn Llanberis y tynnwyd y llun, gydag addewid am fwy o wybodaeth erbyn y rhifyn nesaf!

A dyna flwyddyn arall heibio! Gyda diolch i bawb sydd wedi anfon ymholiadau, gwybodaeth a lluniau i'r golofn dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyn diwedd y flwyddyn bresennol rwy'n gobeithio y bydd 'Chwilota' yn safle ar y wê, ac y gallaf, gydag amser, amynedd a dyfal barhad, lwytho'r holl ôl-golofnau ar y safle. Bydd cyfle hefyd i chi gyfrannu a chysylltu ar y safle. Mwy am y prosiect hwn yn rhifyn mis Chwefror. Gan ddymuno gwyliau dedwydd a blwyddyn newydd dda i bawb. Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffon: 01286 673515).

YSWIRIANT FUW

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd- destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

Eco Nadolig 2013.indd 27 17/12/2013 11:23

ECO'r Wyddfa O'r Cynghorau

Cyngor Llanddeiniolen

Bethel. Mae angen cynrychiolydd o Fethel ar Gyngor Llanddeiniolen. Os oes gennych ddiddordeb i fod yn Gynghorydd, ffoniwch y Clerc ar 01286 871 416, os gwelwch yn dda.

Crynodeb o gofnodion y 3ydd o Ragfyr

Materion o'r cofnodion

Dywedodd Phyllis Ellis bod lloches bws Penisa'rwaun wedi ei gosod o'r diwedd a Carolyn Roberts bod wal cae chwarae Brynrefail wedi ei hatgyweirio a'r tyfiant o gwmpas y golau wedi ei dorri.

Lloches bws. Gwneir cais i Wynedd am loches yn yr Allt Ddu, Dinorwig

Cofebion Rhyfel. Derbyniwyd adroddiad War Memorials Trust a ffurfiwyd rhestr o holl gofebion yr ardal.

Cynllun datblygu Lleol. Cyhoeddodd Hefin Williams "Seminar Safleoedd Tai Posib" a gynhelir yng nghlwb Pêl-droed Bangor ar y 9ed o Ragfyr gan bwysleisio ar y pwysigrwydd o gynrychiolaeth ar ran y Cyngor – gwirfoddolodd Richard Ll. Jones.

Gohebiaethau a materion eraill

Cyflwynodd Elfed Williams ddau fater:

1. Problem carthffosiaeth Maes Eilian, Dinorwig wedi ei ddatrys.
2. Datblygiad ger tai Fictoria, Deiniolen – trefnir rali ar ôl y Nadolig i wrthwynebu'r datblygiad.

Tîm Ymateb Cyntaf Dalgylch Caernarfon. Cyflwynwyd adroddiad y tîm a'u cais am gyfraniad o £1,600 rhwng pedwar Cyngor Cymuned/Tref ardal Caernarfon. Penderfynwyd gofyn iddynt:

1. Sut fydd y cyhoedd yn cysylltu â hwynt mewn argyfwng?
2. A oes gan eu hymatebwyr gymwysterau perthnasol i achub? (paramedic ayyb).
3. Amcan o nifer y galwadau a ddisgwylir.
4. A oes addewid oddi wrth y Cynghorau eraill (gwybodaeth erbyn Medi/Hydref).

Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams bod llygredd baw cŵn yn ddrwg yno – llythyr i'r warden.

Deiniolen. Dywedodd Elfed Williams yr ail-adeiladir y bont ger Cwt y Band yn ystod Mis Ionawr a daw gwelliant i'r llwybr yn fuan.

Cymunedau yn Gyntaf a Phentref Difreintiedig. Gwneir ymdrech i leoli'r pentref yn uchel ar y rhestr yma.

Brynrefail. Gofynnodd Carolyn Roberts am gael bin baw cŵn ger y Caban – cais i Wynedd.

Trafnidiaeth un-ffordd trwy'r pentref – trefnir i'r bwsiau wneud hyn, fel arbrawf, i ddechrau yn Ionawr.

Cynllunio. Cyfeiriodd Idris Thomas at erthygl ardderchog Dafydd Wigley **"Dylai Cynllunio fod yn gadarnhaol, amserol ac yn ateb gofynion lleol"** yn yr Herald a'i frawddeg olaf "Cyfrifoldeb cynrychiolwyr etholedig yw cynorthwyo'r cynllunwyr, **a gwaith y cynllunwyr yw gwrando ar y gymuned y maent yn eu gwasanaethu.**

Trafodwyd llythyr Mr Gareth Jones, Uwch Reolwr Gwasanaethau Cynllunio ac Amgylchedd, Gwynedd, sydd yn cyfiawnhau penderfyniadau'r cynllunwyr yn hytrach na gwrando ar y cyhoedd a phenderfynwyd cyfeirio at erthygl Mr Dafydd Wigley wrth ei ateb.

Gorsaf Betrol Beran – tor amod cynllunio – gormod o geir ar werth yno.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Nant Efa, Llanddeiniolen – adeilad allanol, tynnu amod rhif 5 o gais rhif CO9A/0560/18/LL sy'n gwahardd defnyddio'r uned fel tŷ preswyl.

Penygaer, Penisa'rwaun – codi sied amaethyddol.

1 Ysgoldy, Bethel – codi estyniad ar ochr yr eiddo.

Bryn Golau, Lôn Garet, Dinorwig – codi estyniad i'r eiddo presennol.

Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen – ymholiad o flaen llaw ar gyfer gwneud trac newydd

Lleiniau, Deiniolen – codi estyniad un llawr

Dyddiad y cyfarfod nesaf - 7ed o Ionawr 2014.

ECO'r Wyddfa O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cynhaliwyd cyfarfod ar y 15fed o Hydref 2013.

Trafodwyd cwyn a gafwyd am blant yn chwarae golff yng nghae chwarae Glanmoelyn a chytunwyd i gadw llygaid ar y sefyllfa.

Cadarnhawyd fod Mr Goronwy Hughes wedi cytuno i lenwi'r sedd wag ar y cyngor a chytunwyd yn unfrydol i'w gyfethol a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf.

Cafwyd adborth am ymweliadau i adolygu cofnodion y Cyngor. Adroddwyd fod Un Llais Cymru yn cynghori y dylai pob cyfarfod tebyg gael o leiaf ddau yn gweithredu ar ran y Cyngor. Hefyd, yn dilyn y cyngor gan Un Llais Cymru, fe gytunwyd i wneud y canlynol pe byddai cais i adolygu cofnodion y Cyngor yn cael ei dderbyn eto:

· O leiaf dau berson i fod yn bresennol tra bo'r cofnodion yn cael eu hadolygu.

· Ffi i gael ei gytuno gan y Cyngor o flaen llaw. Y ffi i gynnwys costau llogi ystafell, amser y clerc i fynychu'r cyfarfod ac i baratoi ar gyfer y cyfarfod, cyfieithu a llungopio. Y ffi hwn i'w ddatgan i'r aelod o'r cyhoedd o flaen llaw.

Disgwylir am sylwadau ysgrifenedig gan yr aelod o'r cyhoedd.

· Cytunwyd i dderbyn pris Menter Fachwen am wneud bin ychwanegol i Barc Sglefrio Cwmyglo.

· Trafodwyd ail godi'r llwybrau a oedd yng nghae chwarae Glanmoelyn yn ystod yr 80au. Dywedwyd bod cwmni Celtic Souza am roi tarmac o flaen y giât fawr a phenderfynwyd gofyn iddynt roi tarmac ar yr hen lwybrau hefyd ar gost y Cyngor.

· Mynegwyd pryder fod gwastraff gerddi yn cael ei adael yng nghae chwarae Nant y Glyn. Penderfynwyd rhoi rhybudd arall i'r contractwr sy'n gwneud hyn.

· Cafwyd cwynion am goed yn tyfu dros lwybr Bro Rhyddallt i Tal y Bont a bod llawer iawn o faw ci ar hyd y llwybr. Penderfynwyd pasio'r gŵyn ymlaen i'r Swyddog Llwybrau.

· Dywedodd fod aelod o'r Cyngor am gael cyfarfod gyda cynrychiolwyr o Ysgol Brynrefail i drafod cydweithio ar brosiect i lanhau'r pentrefi. Cytunwyd mai clirio sbwriel oedd y flaenoriaeth.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais i godi tŷ newydd a mannau parcio – Ffordd Glanffynnon, Llanrug am nad oedd yn gais cyflawn ac am fod pryder lleol am y cais.

· Adroddwyd fod cyllid ar gael tuag at lanhau'r pentrefi ac i gael coeden Nadolig ar sgwâr Llanrug.

· Cytunwyd i roddi grant o £350 i Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo, £300 i Glwb Ieuenctid Llanrug a £500 i Gynllun Efe.

· Dywedwyd bod coed wedi tyfu'n beryglus i'r ffordd ger Tyddyn Elan a'u bod yn gorchuddio'r arwydd 'Ysgol'. Penderfynwyd pasio'r gŵyn ymlaen i'r Adran Briffyrdd.

· Dywedodd fod tyllau ar hyd y ffordd ar allt Bryn yn Cwm y Glo, y ffordd sydd yn arwain at Eglwys Llanrug ac ar Ffordd Ceunant o Glyntwrog i'r Becws. Penderfynwyd pasio'r cwynion hyn hefyd ymlaen i'r Adran Briffyrdd.

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Eco Nadolig 2013.indd 28 17/12/2013 11:23

Adolygiad Cyfrolau Cenedl

Dyma ddau o'r cyhoeddiadau diweddaraf yng nghyfres Cyfrolau Cenedl gan Wasg Dalen Newydd, dan olygyddiaeth Dafydd Glyn Jones, cyn-Ddarllenydd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Mae'r ddwy gyfrol yn astudio gwaith y llenor o Fethel, W. J. Gruffydd.

Wrth ddarllen rhagymadrodd cynhwysfawr y golygydd i'r gyfrol gyntaf, Dramâu W. J. Gruffudd: Beddau'r Proffwydi a Dyrchafiad Arall i Gymro, ac fel un a astudiodd Beddau'r Proffwydi a W. J. Gruffydd yn f'ail flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor, ni allaf beidio â theimlo'n siomedig na fyddai'r gyfrol arbennig hon wedi ymddangos yn ystod y cyfnod y bûm i'n astudio'r ddrama. Ceir astudiaeth fanwl yn nhair tudalen ar hugain gyntaf y gyfrol o'r ddwy ddrama a gynhwysir yn y llyfr, sef Beddau'r Proffwydi a Dyrchafiad Arall i Gymro. Edrychir ar gefndir a seiliau'r ddrama Gymraeg, ac ymhle mae Beddau'r Proffwydi yn benodol yn perthyn yn y cyd-destun hwnnw. Dyfynnir o sawl adolygiad o'r ddrama honno hefyd yn y rhagymadrodd, ffynnonellau ddefnyddiol o wybodaeth sy'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o waith y dramodydd. Yn fwy na hynny, o'm profiad i'n ymchwilio i'r pwnc, dyma un o'r ychydig astudiaethau sy'n cynnwys cymaint o wybodaeth dreiddgar — hanes yr awdur, hanes y ddrama Gymraeg, adolygiadau a gwerthfawrogiad o'r ddrama, a hynny i gyd o fewn yr un clawr.

Cymwynas fawr arall Dafydd Glyn yw dod â'r ddwy ddrama hyn i olau dydd unwaith eto, ar ôl iddynt fod allan o brint ers blynyddoedd lawer. Yn fwy perthnasol fyth, mae 2013 yn nodi canmlwyddiant cyhoeddi Beddau'r Proffwydi am y tro cyntaf. Efallai y bydd y ffaith fod y ddrama ar gael mewn print unwaith eto'n ysgogi ac yn annog cwmnïau drama ledled Cymru i'w pherfformio unwaith eto.

Yn sicr, wrth ysgrifennu fy nhraethawd dros ddwy flynedd yn ôl, byddai bron pob paragraff o ragymadrodd Dafydd Glyn wedi bod o fudd mawr i mi a byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb ym myd y ddrama Gymraeg i ddarllen yr hyn sydd gan Dafydd Glyn Jones i'w ddweud, ac yn sicr yn argymell i'r sawl sy'n astudio naill ai'r dramâu neu eu hawdur sicrhau bod y llyfr hwn wrth eu penelin bob amser.

Yn yr ail gyfrol, Eira Llynedd ac Ysgrifau Eraill gan W. J. Gruffydd, ceir un ar bymtheg o eitemau detholedig gan W. J. Gruffydd wedi'u gosod mewn trefn sy'n llifo o un i'r llall yn gelfydd.

Unwaith eto, mae rhagymadrodd Dafydd Glyn Jones yr un mor gynhwysfawr ag yn y gyfrol gyntaf, ac mae swm yr wybodaeth ddefnyddiol a threiddgar a gyflwynir mewn cyn lleied o le, a hynny mewn modd trefnus a thaclus, yn gamp anhygoel. Y tro hwn, mae'r rhagymadrodd deuddeg tudalen ar hugain yn trafod W. J. Gruffydd, y beirniad llenyddol ac Eisteddfodol. Rhoddir sylw manwl i arddull y llenor, o'i allu i daro'r hoelen ar ei phen i'w duedd i fethu bodloni ar air gan droi at y Saesneg i'w achub a'r clwy 'methu gorffen' hwnnw a welir mewn amryw byd o'i waith beirniadol.

Eir ymlaen wedyn i edrych yn fanylach ar ei ysgrifau, a thrwy hynny gyflwyno sawl beirniad llên pwysig arall — Syr John Morris-Jones, er enghraifft. Mae hyn yn rhoi syniad mwy fyth i'r darllenydd o arwyddocâd W. J. Gruffydd yng nghyd-destun ei oes yn ogystal â heddiw.

Dyma ddwy gyfrol, felly, y mae'n sicr werth mawr iddynt. Boed hynny oherwydd i un ohonynt roi bywyd newydd i ddramâu un o wŷr enwocaf ein llên, neu oherwydd bod rhagymadroddion defnyddiol a difyr yr ysgolhaig Dafydd Glyn Jones o gymorth i'r myfyriwr neu'r academydd fel ei gilydd, argymhellwn i chi fachu copi o'r ddwy gyfrol (mae gostyngiad os prynir y ddwy gyda'i gilydd, gweler isod) cyn iddynt ddiflannu oddi ar y silffoedd.

Dafydd Glyn Jones (gol.), Dramâu W. J. Gruffudd: Beddau'r Proffwydi a Dyrchafiad Arall i Gymro (Aberystwyth, 2013). Pris — £8.00

Dafydd Glyn Jones (gol.), Eira Llynedd ac Ysgrifau Eraill gan W. J. Gruffydd (Aberystwyth, 2013). Pris — £15.00

Cynnig Arbennig: Pecyn Llanddeiniolen — Y ddwy gyfrol am £20.00 (yn lle £23.00). Cysyllter â'r cyhoeddwyr — 01248 352923 neu dalennewydd@yahoo.com

Eco Nadolig 2013.indd 29 17/12/2013 11:23



Ar ben arall i'r lein

Adroddiad Blynyddol Y Gymdeithas Bysgota 2013

Wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad yma mae tymor 2013 yn darfod yn ddigon tawel, gyda'r pysgota brithyll drosodd a dim dŵr i ddenu'r eog o'r môr. Mae'r tywydd ymysg y ffactorau sydd yn dylanwadu ar gyflwr ein dyfroedd a'n llwyddiant gyda'r enwair. Cyn sôn am eleni - cofiwn ar ddiwedd 2012 y llifogydd garw mewn sawl ardal, gyda difrod ac anghyfleustra i dai,busnesau a chymunedau. Sefais yn Stryd Fawr Llanberis mewn "waders" mawr, a'r Afon Goch yn gorlifo droedfeddi dros y bont, a'r stryd fel afon. Y bore wedyn roedd coed a chreigiau a thunelli o fwd yn llanast o un pen y pentref i'r llall. Ond cofiaf ar yr ail fore wedi'r dilyw - pwyso eto ar y bont a gweld gwely'r Afon Goch wedi ei sgwrio'n lân, ond yn fwy na hyn - ar hyd y graean gloyw roedd pâr ar ôl pâr o frithyll yn brysur yn cymharu a chladdu. Tybiais nad oedd pysgod ar ôl yn yr afon, ond lai na deuddydd wedi'r chwalfa roedd y drefn naturiol wrthi'n gosod sylfaen bywyd yr afon ar gyfer y dyfodol. Gobeithiwn bod posib adfer dyfroedd gyda'r un brwdfrydedd wedi difrod o achos dynol.

Ar ddechrau'r tymor daeth eira mawr ar ddiwedd mis Mawrth, a'r lluwchfeydd a greodd ffasiwn drafferth a cholledion i rai o ffermwyr y fro. Chwythodd y gwynt o'r dwyrain, a bu'r gwanwyn yn sobr o oer, gyda phob tyfiant fis ar ôl ei arfer, yn ôl y sôn. Adlewyrchwyd hyn yn y pysgota, gyda brithyll yn brin ac yn denau. Ond daeth yn gynhesach o'r diwedd, a physgota da ar Lynnoedd Nantlle a Cwellyn, ar hyd dyddiau'r haf gorau ers rhai blynyddoedd.

Bu gwaith ar argae Llyn y Dywarchen - fe wagiwyd rhan helaeth o'r dŵr a dadorchuddiwyd golygfa unigryw o wely'r llyn. Wedi ei ail lenwi â dŵr a physgod bu aelodau ac ymwelwyr yn cael hwyl. Ar wahân i'r brithyll cynhenid roedd safon y brithyll enfys yn arbennig a brolio mawr ar eu hansawdd ar y lein ac ar y bwrdd bwyd. Rydym yn ddiolchgar i'r criw sydd wedi cynnal y rhaglen stocio a gwarchod y pysgod - mae eu hymdrechion wedi cyfrannu'n sylweddol at ein pleser mewn tymor sych.

Tra bod yr Afon Seiont yn dawel roedd pysgod yn y Gwyrfai ac unwaith eto bu llwyddiant i rai ar yr ambell li a gafwyd. Er dechrau'n araf, roedd pyllau glan y môr y Llyfni hefyd yn lloches i'r sewin a chafwyd nosweithiau prysur. Eto roedd yn braf gweld bod y rhan helaethf o'r gwyniadau yn cael eu rhoi yn ôl yn yr afon.

Roedd yr haf sych yn cael cryn effaith ar 'sgota'r Afon Seiont. Pan gafwyd rhywfaint o law fe ddaeth sewin i'r pyllau - roedd rhai i'w gweld yn gorwedd yn y dŵr tenau, a'r pysgotwyr mwy medrus yn eu dal yn y nos. Ond am yr eog - doedd dim cynffon i'w weld. Hyd yn oed ar ddiwedd y tymor arferol, ym mis Hydref, a rhyw hanner lli, llond dwrn o eog a ddaliwyd. Mae diffyg dŵr yn drysu'r pysgota eog ar y Seiont, yn sicr. Mae dŵr da yn codi'r pysgod o'r môr. Nid yw'r eog yn bwydo tra ei fod yn yr afon a ninnau'n ceisio ei hudo i afael yn yr abwyd neu'r bluen - tasg amhosib medd rhai sydd ddim yn bysgotwyr, ond cofiwn ni'r wefr mae cyffro'r dŵr mawr yn ei danio yn y pysgodyn a'r pysgotwr, a'r llwyddiant sydd yn ei ddilyn. Ond gobeithiwn nad oedd ffactorau eraill yn chwarae eu rhan yn y pysgota gwan eleni.

Mae'n bedair blynedd ers y llygredd yn 2009. Er bod ymchwiliad yr awdurdodau yn awgrymu bod niferoedd y pysgod mân yn iach yn y nentydd, mae'n naturiol i ni amau bod dinistr i fywyd yr afon bedair blynedd yn ôl yn cael effaith yn ei dro ar ein dalfa. Meddyliwch am yr eog mân a ddaeth o'r gro ar ddechrau 2009, ac a wynebodd lawn effaith yr algae a diffyg ocsigen y flwyddyn honno. Onid gweddillion y pysgod yma yw'r ychydig eog a ddaeth yn eu holau i'n dyffryn yn 2013?

Fel y gwyddoch - mae achos Llyn Padarn a'r torgoch yn rhygnu yn ei flaen, ond mae'n llwybr digon troellog. Y llynedd roedd sôn am gau gwaith trin carthion Llanberis a'i symud i Frynrefail. Bellach nid dyma'r cynllun sydd yn cael sêl bendith Dŵr Cymru. Bu sawl cyfarfod eto ac roedd hi'n amlwg bod cyrff ac unigolion ar wahân i'r pysgotwyr yn anfodlon â'r tindroi a'r diffyg gweithredu er gwaetha'r dystiolaeth, ac rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth. Mae manylion diweddaraf y sefyllfa braidd yn gymhleth i'w cynnwys yn yr adroddiad yma, ac yn newid o un mis i'r llall. Un pwynt pwysig, ac eto'n anodd ei gredu, yw fod yr awdurdod newydd - sef Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ceisio gorfodi Dŵr Cymru i ymateb ar sail deddfwriaeth Ewrop (Environmental Damage Regulations 2009). Mae Dŵr Cymru o'r farn nad oes rhaid ymateb felly am unrhyw lygredd a ddigwyddodd cyn 2009 gan nad oedd y ddeddfwriaeth benodol yma yn bodoli ar y pryd. Ymddengys efallai bod posib iddynt amddiffyn y safbwynt gwarthus yma oherwydd cymhlethdodau'r prosesau cyfreithiol. I mi, mae'r ffaith bod Dŵr Cymru yn ystyried ymateb yn y modd yma drwy rhyw ystumiau cyfreithiol yn dangos eto eu gwir sarhad am sefyllfa ein llyn a'r torgoch. Mae Fish Legal yn parhau i ymladd yr achos ar ein rhan ac yn herio'r penderfyniadau uchod.

Ond mae ein hymgyrchu a'r sylw a'i ddilynodd wedi arwain at rhywfaint o ddaioni. Mae rhai o'n dyfroedd yn cael ei rhentu, ac mae'r ysgrifennydd wedi cynnal perthynas ffyddlon a deallus gyda'r tirfeddianwyr dros y blynyddoedd. Rydym yn ddiolchgar iddo am ei waith ac hefyd i'r perchnogion sydd wedi cytuno i ostwng ein rhenti yn ystod y cyfnod yma. Y gwir yw bod gwerth eu hadnoddau nhw fel pysgodfeydd yn dirywio oherwydd y llygredd, ac ymdrechion y Gymdeithas sydd yn debygol o'u hachub.

Rydym hefyd ar fin ailddechrau rhaglen rhyddhau silod (smolt-release) o'r ddeorfa yng Nghrawia yn 2014. Tra bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn trin a thrafod rhyw welliant yma ac acw i'r cynefinoedd rydym ni o'r farn bod yn rhaid rhoi hwb go iawn i unrhyw adferiad drwy raglen stocio sylweddol yn ychwanegol i'r cynllun sydd wedi rhedeg yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n rhaid gweithredu nawr - mae blynyddoedd o beidio ymateb wedi ein harwain i'r fan yma. Mae cwmni First Hydro, o leiaf, wedi bod yn gefnogol - maent wedi ailsefydlu gwlâu claddu i'r torgoch yn Afon y Bala, ac yn ystyried gwaith i ailagor yr Afon Dudodyn i bysgod mudol gael mynediad am y tro cyntaf ers diwedd y saithdegau.

Mae ein cysylltiad efo Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy, Clwyd a Gwynedd wedi datblygu ymhellach. Bu cyfarfod yn y Felinheli. Clywsom am brosiectau sydd wedi eu cyflawni ar ein dyfroedd, er bod rhywfaint o siom o weld safon peth o'r gwaith. Gobeithiwn fanteisio ymhellach ar yr arian sydd ar gael yn ystod 2014. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda ysgolion, ac mae ysgol yn y cylch yn bwriadu cymeryd rhan gyda thanc magu eog yn y dosbarth yn y gwanwyn. Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau sydd wedi cefnogi hyn a'r mentrau eraill sydd ynghlwm.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod, a threfnu tocynnau i'r siopau. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2013.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2014.

Robin Parry



Eco Nadolig 2013.indd 30 17/12/2013 11:23

Chwaraeon

RHEDEG MYNYDD

Rhedwyr lleol yn parhau ar y blaen.

Llongyfarchiadau y mis hwn i…

Mathew Roberts o Lanberis ar ennill Ras y 'Tour of Pendle' yn Swydd Gaerhirfryn. Dyma ardal y gwrachod, ond chafodd swyn yr un ohonynt unrhyw effaith ar Mathew wrth iddo adael rhedwyr gorau gogledd Lloegr o'i ôl, gan gynnwys cyn bencampwr Prydain a chyn enillydd Ras yr Wyddfa, Ian Holmes. O bosibl mai dyma fuddugoliaeth orau Mathew ar y mynyddoedd. Mae pethau'n argoeli'n dda iddo ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Phil Lynes o Lanrug ar droi ei gefn (am unwaith!) ar feicio a nofio, ac ennill ras 5 cilomedr Sion Corn Llanfairpwll mewn amser o ddeunaw munud. Roedd dros 80 o redwyr yn cystadlu.

CWIS NADOLIG YR ECO

1. Enw newydd maes pel-droed Y Belle-Vue yn y Rhyl yw Stadiwm… … … … … … … … ?

2. Pwy sgoriodd y cais gyntaf i Gymru yn ystod Cyfres Gemau yr Hydref?

3. Pwy yw'r ddau Gymro sy'n rheoli timau pêl-droed yn Uwch Gynghrair Lloegr?

4. Ym mha gamp mae timau lleol yr Amigos, Primos a'r Piws yn chwarae?

5. O pa bentref yn Sir Gaerfyrddin y daw Delme Thomas, Mike Phillips a Jonathan Davies?

6. Pa fath o gôl fydd ddim yn cyfrif mewn gemau hoci o'r tymor nesaf ymlaen?

7. Pwy yw'r unig Brydeiniwr ar wahan i Gareth Bale i sgorio hat-tric yng Nghyngrair La Liga, Sbaen?

8. Pwy ddewiswyd yn Brif Chwaraewr Rygbi y Byd elenni?

9. Ym mha ddinas yn Awstralia yn draddodiadol chwaraeir y Prawf Lludw ar Ddydd Sant Steffan?

10. Ym mha bwysau mae Carl Froch yn bencampwr yr IBF a'r WBA?

11. Pa chwe chwaraewr yw sêr y ffilm 'Class of ''92?

12. Ym mha ddinas mae maes criced Gerddi Eden?

13. Ym mha gamp mae'r Gymraes Non Stanford yn cystadlu?

14. I pa glwb roedd y gôl-geidwad Wayne Hennessey yn chwarae pan ennillodd ei gap pêl-droed ddiweddaraf i Gymru?

15. Beth ydy'r sgor uchaf gyda tair dart y gellir ei sgorio i ennill gêm o 501?

Mae'r atebion i'w gweld ar Dudalen 24

NADOLIG LLAWEN I CHWI GYD ODDI WRTH 'YR ADRAN CHWARAEON'.

Y Rhediad Yn Parhau

Ymddiheuriadau am fod yn undonnog, ond Eithin Duon sy'n hawlio'r sylw eto y mis hwn. Mae rhediad anhygoel y tîm cyntaf yn parhau, ac yn sgorwyr cyson iawn. Yr uchafbwynt oedd curo Bae Cinmel yn Nhlws FA Cymru, ac yna'n ffodus i gael gêm gartref yn erbyn Ruthin. Pumed ym mhrif adran Ardal Wrecsam yw Ruthin, ac mae'n argoeli yn dda am glencar o gêm ddechrau'r flwyddyn newydd. Llongyfarchiadau i Aled Owen y rheolwr ar dderbyn tlws Rheolwr y Mis. Oes ganddo unrhyw dips i David Moyes tybed?

Anghyson o hyd yw hi draw ar Faes Padarn. Diddorol yw sylwi yr ystadegyn mewn gemau cynghrair. Sgorio 27 yn erbyn 28. Awgrym efallai fod y gemau yn rhy 'agored' and bod angen un neu ddau hen ben i arafu'r 'brwdfrydedd' i ruthro ymlaen.

Serch hynny bydd tipyn o edrych ymlaen am Gracer Dolig ar Ragfyr 28ain pan fydd Llanberis yn teithio i lawr y dyffryn i Eithin Duon. Os cawn ni gêm fel un y llynnedd yna cawn wledd. Gyda llaw beth am i awdurdodau'r gynghrair apwyntio swyddogion Cymraeg eu hiaith eleni?

Yng Nghyngrair Arfon mae'n glos iawn rhwng ail dimau Llanberis a Llanrug. Trueni nad oes darbi Dolig ar y lefel yma hefyd. Mae cryn ddyfalu hefyd os bydd enw Llanberis yn mynd unwaith eto ar Gwpan Iau y Gogledd, tlws a gartrefodd sawl gwaith ar Faes Padarn yn ystod oes aur y 60a'u.

Llithro i lawr tabl Cynghrair Gwynedd mae'r Waunfawr ond gydag ambell gêm mewn llaw. Byddant yn falch o guro Bontnewydd yng Nghwpan Gwynedd, ond pwyntiau cynghrair fydd y pwysicaf i'r Beganifs.

I Pwy Fuasech Chwi'n Pleidleisio?

Rwy'n llunio'r erthygl hon cyn darganfod ennillwyr Tlysau Personoliaeth Chwaraeon y BBC yng Nghymru a Phrydain. Aiff y tlysau i'r prif gampau – pêl-droed, rygbi, criced – neu fydd perfformiadau clodwiw y gemau Olympaidd yn cario pwysau?

Yn achos Cymru braf sylwi bod catergoriau yn ymwneud â'r rhai sy'n cynnal, hyfforddi a hybu'r campau. Y rhai hynny sydd allan yn y glaw ar nos Iau gyda'r ieuenctid.

Beth petai cystadleuaeth o'r fath ym Mro'r Eco? Y mae'r Golygydd a minnau yn ymfalchio yn yr ystod o gampau sy'n cael sylw bob mis. Teimlwn fod y sylw yma yn gydnabyddiaeth i'r ystod o gampau yn y fro a'n hedmygedd o'r llu o wirfoddolwyr sy'n cynnal y campau hynny. 20 mlynedd yn ôl prin oedd y sylw tu allan i'r bel-droed. Dyma'r sefyllfa o hyd mewn sawl papur bro arall. Bro'r Eco sydd erbyn hyn yn gadarnle rhedeg mynydd, gyda Ras yr Wyddfa a Marathon Eryri yn achlysuron Ewropeaidd. Diolch i'r criw gwreiddiol a gafodd y weledigaeth. Y mae chwaraeon erbyn hyn yn elfen hanfodol yng nghynhaliaeth economaidd y fro.

Pwy yn eich barn chwi fuasai Personoliaeth Chwaraeon Bro'r Eco 2013?



Eco Nadolig 2013.indd 31 17/12/2013 11:23

Colli pwysau'n arwain at driathlon

Yn fuan wedi gloddesta'r Nadolig a'r Calan bydd pob math o hysbysebion yn ymddangos yn annog pobl i golli pwysau. Bydd nifer helaeth yn derbyn y sialens, ond yn gwangalonni ar ôl ychydig wythnosau.

Nid dyna fu hanes Nichola Griffiths o Lanrug, arweinydd y Cylch Meithrin lleol. Ym mis Medi y llynedd penderfynodd ei bod angen colli pwysau ac ymunodd â'r gampfa yng Nganolfan Hamdden Caernarfon. Fel roedd y pwysi'n diflannu a lefel ei ffitrwydd yn gwella penderfynodd ei bod angen sialens i brofi'r ffitrwydd a chofrestrodd i redeg Ras yr Ynys yng nghoedwig Niwbwrch a Thraeth Llanddwyn ym Môn, sef ardal ei magwraeth. Llwyddodd i gwblhau'r ras 10 cilomedr, ac ers hynny, mae'r cystadlu wedi bod yn rhan o'i bywyd. Ofnai roi pwysau'n ôl, a gosododd dargedau bychan iddi ei hun, sef mwy o rasys 10 cilomedr, a'r rheini'n amrywio o ran tirwedd. Bu'n cystadlu yn Delamere Forest, Swydd Gaer mewn math o ras traws-gwlad gyda rhwystrau; yna Ras Llwybr Coedwig Llandegla, cyn mentro i Ardal y Llynnoedd yng ngogledd Lloegr. Yno, bu'n cystadlu yn Ras y 'Total Warrior'; math o ras traws-gwlad ond gyda rhwystrau megis pyllau o fwd a dringfeydd rhaffau.

Yn gynharach eleni cafodd ei themtio i Lanberis – i wylio Triathlon Llanc y Llechen, ond roedd yn awchu am gael cymryd rhan yn y fath gystadleuaeth, ac ar ddiwedd Medi eleni roedd yn un o gannoedd yn sefyll ar draeth Llanddwyn yn barod i gystadlu yn Ras Triathlon y Tywod. Golygai nofio 400 metr yn y môr, beicio 18 cilomedr a rhedeg 5 cilomedr. 'Sbrint' yw'r enw a roir ar driathlon o'r fath – enw anaddas os bu un erioed!

Triathlon yr Eira yng Nghapel Curig oedd y gystadleuaeth nesaf, ychydig dros fis yn ôl. Golygai'r 'sbrint' hon nofio yn Llyn Mymbyr, beicio 41 cilomedr yn Eryri a rhedeg hanner ffordd i fyny Moel Siabod.

Mae'r cystadlu drosodd am eleni, ond mae'r ymarfer yn parhau, oherwydd draw ar y gorwel mae Ras Llwybr Portmeirion ym mis Ebrill, a Triathlon Pwllheli i ddilyn. Mae'r pryder am golli pwysau wedi hen ddiflannu, a chadw a gwella lefelau ffitrwydd yn y dwr, ar y beic ac yn rhedeg sy'n cymryd blaenoriaeth bellach. Ond nid Nichola yn unig sydd wedi elwa o'r holl ymarfer, oherwydd bu'n cael ei noddi yn amryw o'r rasys, a'r arian yn gymorth i gynnal y Cylch Meithrin.

Prif Wobr Crefftau Ymladd i Ysgol Hyfforddi Lleol.

Yn ystod Tachwedd bu Sara Roberts yn Efrog Newydd yn ymarferei chrefft. Mae Sensei Sara, sy'n 5ed Dan yn hyfforddwraig gydag Ysgol Hyfforddi BMA yn Llanberis, a chyfle oedd hwn iddi gael ymarfer gydag un o brif hyfforddwyr y grefft, sef Steve Sohn. Yn dilyn ei hymweliad ag Efrog Newydd, teithiodd ymlaen i Washington D.C. i gymryd rhan mewn cynhadledd addysgiadol yn ymwneud a'r grefft. Roedd dros chwe chant o ysgolion a'u hyfforddwyr yn bresennol o bob rhan o'r byd. Gyda Sara yn y gynhadledd roedd Dylan Wyn Jones, Llanrug, a Sion Huw Thomas, sydd hefyd yn hyfforddwyr gydag Ysgol Hyfforddi BMA yn Llandudno a Bangor.

Yn ystod y gynhadledd, cyflwynwyd Ysgol Hyfforddi BMA gyda'r wobr am ddod yn brif ysgol hyfforddi Gwledydd Prydain eleni. Roedd y wobr yn cael ei rhoi am hyfforddiant arbennig, am eu gofal o'u myfyrwyr a'u disgyblion, ac am gynnydd mewn aelodaeth. Roedd ennill y wobr hon yn sioc bleserus i Sara. Dywedodd fod gan yr Ysgol Hyfforddi dim arbennig o hyfforddwyr sy'n hynod ffyddlon ac ymroddedig, ac y mae'n ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth.